

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal  
Cymdeithasol a Chwaraeon  
**Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru):  
Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1**

---

Chwefror 2017



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd](http://www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **[Seneddlechyd@cynulliad.cymru](mailto:Seneddlechyd@cynulliad.cymru)**

Twitter: **@Seneddlechyd**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal  
Cymdeithasol a Chwaraeon  
**Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru):  
Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1**

---

Chwefror 2017



# Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Sefydlwyd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar 28 Mehefin i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, yn cynnwys y meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): iechyd corfforol, iechyd meddwl, iechyd y cyhoedd a llesiant pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol.

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Dai Lloyd AC (Cadeirydd)**

Plaid Cymru  
Gorllewin De Cymru



**Dawn Bowden AC**

Llafur Cymru  
Merthyr Tudful a Rhymni



**Jayne Bryant AC**

Llafur Cymru  
Gorllewin Casnewydd



**Angela Burns AC**

Ceidwadwyr Cymreig  
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir  
Benfro



**Rhun ap Iorwerth AC**

Plaid Cymru  
Ynys Môn



**Caroline Jones AC**

UKIP Cymru  
Gorllewin De Cymru



**Julie Morgan AC**

Llafur Cymru  
Gogledd Caerdydd



**Lynne Neagle AC**

Llafur Cymru  
Torfaen

# Cynnwys

Argymhellion .....	5
01. Cyflwyniad.....	8
02. Cefndir.....	10
03. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth .....	12
04. Rhan 2: Tybaco a chynhyrchion nicotin – Pennod 1: Ysmygu.....	20
05. Rhan 2: Tybaco a chynhyrchion nicotin – Pennod 2: Manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin .....	25
06. Rhan 2: Tybaco a chynhyrchion nicotin – Pennod 3: Gwaharddiad ar werthu tybaco a chynhyrchion nicotin.....	30
07. Rhan 2: Tybaco a chynhyrchion nicotin – Pennod 4: Rhoi tybaco etc. i bersonau o dan 18 oed .....	32
08. Rhan 3: Triniaethau arbennig.....	34
09. Rhan 4: Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff.....	43
10. Rhan 5: Aseidiadau o'r Effaith ar Iechyd .....	47
11. Rhan 6: Gwasanaethau fferyllol .....	52
12. Rhan 7: Darparu toiledau.....	58
13. Rhan 8: Amrywiol a chyffredinol.....	67



# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)..... Tudalen 18

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn edrych yn ddiymdroi ar y posibilrwydd, drwy'r ddeddfwriaeth hon a'r pwerau sydd ganddi eisoes, i gyflwyno camau i fynd i'r afael â gordewdra a materion eraill sy'n flaenoriaeth ym maes iechyd y cyhoedd, gan gynnwys: ..... Tudalen 18

- gwneud darpariaeth i roi sail statudol i safonau maeth mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, cartrefi gofal ac ysbytai.
- cryfhau'r gofynion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran cynlluniau llesiant lleol byrddau gwasanaethau cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod y rhain yn cynnwys camau i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd, fel gordewdra, diffyg gweithgarwch corfforol ac unigrwydd ac unigedd.
- defnyddio'r pwerau yn y Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) i wahardd unrhyw ddiodydd ac ynddynt siwgr ychwanegol rhag bod ar gael mewn ysgolion. .... Tudalen 19

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog, fel blaenoriaeth gyntaf, yn gwneud y gwaith angenrheidiol er mwyn ymestyn y cyfyngiadau ar ysmegu i leoliadau addysg a gofal plant y blynyddoedd cynnar; gathiau'r ysgol (gan ddatblygu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i gyflwyno gwaharddiadau gwirfoddol); ac ardaloedd ffiniol meysydd chwarae cyho. ....Tudalen 24

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn edrych ar y posibilrwydd o ymestyn y gwaharddiadau i gyfleusterau chwarae/chwaraeon eraill, fel meysydd chwarae, ardaloedd gemau amrywiol, parciau sglefrio ac ati, yn ogystal â thir cyfleusterau gofal iechyd eraill. ....Tudalen 24

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio â byrddau iechyd lleol er mwyn sicrhau bod cymorth a chynghor i roi'r gorau i ysmegu ar gael yn helaeth mewn lleoliadau gofal iechyd. Dylid rhoi pwyslais penodol ar hyn mewn unrhyw ardaloedd ysmegu yn yr awyr agored, os ydynt ar gael. ....Tudalen 24

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cadarnhau a fydd y gofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin yn berthnasol i fusnesau cyfanwerthu sy'n gwerthu i'r cyhoedd, a'i bod yn diwygio'r Bil a'r deunydd esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn unol â hynny. ....Tudalen 29

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod gwaith yn cael ei wneud, a hynny fel mater o flaenoriaeth, i ychwanegu troseddau sy'n ymwneud â gwerthu tybaco anghyfreithlon at y rhestr o droseddau a all arwain at wneud Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad ar gyfer mangre manwerthu yng Nghymru. ....Tudalen 31

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn trafod â Llywodraeth y DU yr angen i gymryd rhagor o gamau i fynd i'r afael â masnachu tybaco anghyfreithlon, gan gynnwys cyflwyno cosbau mwy effeithiol a rhoi rhagor o bwerau i swyddogion safonau masnach. ....Tudalen 31

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod y rhestr o driniaethau arbennig a enwir ar wyneb y Bil yn cael ei diwygio er mwyn cynnwys y defnydd o laser/golau pwls dwys (IPL) a ddefnyddir at ddibenion esthetig nad ydynt yn llawdriniaethol eu natur, fel cael gwared ar datŵs neu flew. ....Tudalen 42

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ailedrych ar y diffiniad o "datŵio" er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys "tashing" neu driniaethau tebyg nad ydynt o anghenraid yn golygu defnyddio deunyddiau sy'n lliwio. ....Tudalen 42

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn gwneud gwaith ar frys i ddeall i ba raddau y mae triniaethau i addasu'r corff yn cael eu rhoi yng Nghymru ac asesu'r risg y mae hyn yn ei hachosi i iechyd y cyhoedd, gyda'r nod o ychwanegu'r rhain at y ddeddfwriaeth cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. ....Tudalen 42

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell y dylid diwygio'r Bil fel nad oes darpariaeth ar wyneb y Bil sy'n rhoi esemptiad diofyn i unrhyw broffesiwn gofal iechyd. Dim ond drwy reoliadau, ac ar ôl ymgynghori â'r cyrff proffesiynol perthnasol, y dylai unrhyw broffesiwn gofal iechyd, gan gynnwys meddygon, deintyddion a nyrsys, fod wedi'u hesemptio o'r gofyniad i gael trwydded. ....Tudalen 42

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell y dylid diwygio'r troseddau a restrir yn Adran 63(3) o'r Bil er mwyn cynnwys "troseddau rhyw". ....Tudalen 42



**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Adran 92 o'r Bil yn cael ei diwygio er mwyn gwahardd rhoi twll, neu wneud trefniadau i roi twll, mewn rhan bersonol o gorff person sydd o dan 18 oed. ....Tudalen 46

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell ailenwi Asesiadau o'r Effaith ar lechyd yn Asesiadau o'r Effaith ar lechyd a Llesiant, a hynny er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd ac ymarferwyr y ddealltwriaeth ddiweddaraf sy'n gyson â darnau eraill o ddeddfwriaeth. ....Tudalen 51

**Argymhelliad 16.** Argymhellwn fod y Gweinidog yn esbonio'n glir yn y canllawiau statudol y disgwyliad y bydd toiledau mewn adeiladau cyhoeddus mawr ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio pryd bynnag y bydd hynny'n ymarferol ac yn bosibl. ....Tudalen 65

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog, drwy weithio â phartneriaid priodol, yn datblygu map cenedlaethol, gan ddefnyddio'r wybodaeth a roddir yn strategaethau toiledau lleol awdurdodau lleol, a hynny er mwyn helpu'r cyhoedd i ddod o hyd i doiledau sydd ar gael iddynt eu defnyddio drwy Gymru. ....Tudalen 65

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog, drwy weithio â phartneriaid priodol, yn ystyried yn fanwl y posibilrwydd o ddatblygu Ap a fyddai'n helpu'r cyhoedd i ddod o hyd i doiledau sydd ar gael iddynt eu defnyddio drwy Gymru. ....Tudalen 65

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn comisiynu gwaith i ddatblygu logo y gellir ei adnabod yn hawdd i'w arddangos yn y manau lle mae toiledau ar gael i'r cyhoedd drwy Gymru. ....Tudalen 66

# 01. Cyflwyniad

1. Ar 7 Tachwedd 2016, cyflwynwyd Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â'r Bil gan Rebecca Evans AC, y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad am y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Tachwedd.

2. Yn ei gyfarfod ar 11 Tachwedd 2016, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon (y Pwyllgor) er mwyn iddo ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad erbyn 10 Chwefror 2016.<sup>1</sup>

## Cylch gorchwyl

3. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n defnyddio'r fframwaith canlynol wrth graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil:

Ystyried—

1. egwyddorion cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) sy'n ceisio gwella a diogelu iechyd a llesiant pobl Cymru, yn benodol drwy:
  - ailddatgan y cyfyngiadau ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig a gweithleoedd, a rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ymestyn y cyfyngiadau ar ysmegu i fangreoedd ychwanegol neu gerbydau;
  - gosod cyfyngiadau ar ysmegu ar dir ysgolion, tir ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus;
  - darparu ar gyfer creu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin;
  - rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu at y troseddau sy'n cyfrannu at Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yng Nghymru;
  - gwahardd rhoi tybaco a/neu gynhyrchion nicotin i unigolyn o dan 18 oed;
  - darparu ar gyfer creu cynllun trwyddedu mandadol i ymarferwyr a busnesau sy'n cynnal 'triniaethau arbennig' sef aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio;
  - cyflwyno gwaharddiad ar dyllu rhannau personol o gorff unigolyn o dan 16 oed;
  - ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd mewn amgylchiadau penodedig;
  - newid y trefniadau ar gyfer penderfynu ar geisiadau i fod ar restr fferyllol y byrddau iechyd, i system sy'n seiliedig ar anghenion fferyllol cymunedau lleol;
  - ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi strategaeth leol i gynllunio sut y byddant yn diwallu anghenion eu cymunedau ar gyfer defnyddio cyfleusterau toiledau a fydd ar gael i'r cyhoedd; a

---

<sup>1</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Busnes, Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer trafod Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), Tachwedd 2016, Tachwedd 2016

- galluogi 'awdurdod bwyd' o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 i gadw derbyniadau cosb benodedig sy'n deillio o droseddau o dan y Ddeddf honno, er mwyn gorfodi'r cynllun sgorio hylendid bwyd.
- 2. unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r darpariaethau hyn ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
- 3. a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- 4. goblygiadau ariannol y Bil (fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol);
- 5. priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol).

### **Dull y Pwyllgor o weithio**

**4.** Rhwng 10 Tachwedd ac 16 Rhagfyr 2016, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn rhoi sylfaen i'w waith, a hynny ar sail y cylch gorchwyl y cytunwyd arno. Cafwyd 41 o ymatebion ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan y Cynulliad. At hynny, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Mae rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar wedi'i chyhoeddi ar wefan y Cynulliad.

**5.** Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at ei waith.

### **Gwaith gan Bwyllgorau eraill ar y Bil**

**6.** Ar 19 Ionawr 2017, clywodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad dystiolaeth gan y Gweinidog ynghylch goblygiadau ariannol y Bil. Cyhoeddodd y Pwyllgor hwnnw adroddiad yn nodi'i gasgliadau ar 10 Chwefror 2017.

**7.** Ar 21 Tachwedd 2016, clywodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad dystiolaeth gan y Gweinidog ynghylch pa mor addas oedd y darpariaethau yn y Bil sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth. Cyhoeddodd y Pwyllgor hwnnw adroddiad yn nodi'i gasgliadau ar 10 Chwefror 2017.

## 02. Cefndir

### Cymhwysedd deddfwriaethol

8. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn datgan:

---

“Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad”) y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (“y Bil”) yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae darpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi eu nodi yn adran 108 ac Atodlen 7.

Mae paragraffau 9, 12 a 15 o Atodlen 7 yn nodi'r pynciau canlynol y caiff y Cynulliad ddeddfu arnynt.

Paragraff 9 'Iechyd a Gwasanaethau Iechyd':

Promotion of health. Prevention, treatment and alleviation of disease, illness, injury, disability and mental disorder. Control of disease. Family planning. Provision of health services, including medical, dental, ophthalmic, pharmaceutical and ancillary services and facilities. Clinical governance and standards of health care. Organisation and funding of national health service.

Paragraff 12 'Llywodraeth Leol':

...Powers and duties of local authorities and their members and officers...

Paragraff 15 'Lles Cymdeithasol':

...Protection and well-being of children (including adoption and fostering) and of young adults...

Mae'r pynciau uchod yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud y darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Bil. Mae Rhan 2 y Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n dileu swyddogaethau cyn-gychwyn Gweinidog y Goron. Bydd y darpariaethau hynny o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i'r darpariaethau o dan Ran 3 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae trafodaethau â Llywodraeth y DU yn mynd rhagddynt gyda golwg ar gael y cydsyniad hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd trafodaethau ar faterion cydsynio yn dod i ben yn ystod Cyfnod 1.”

---

9. Gwnaeth y Llywydd ddatganiad ar 7 Tachwedd 2016 yn nodi'r canlynol:

- yn ei barn hi, byddai'r rhan fwyaf o ddarpariaethau Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), a gyflwynwyd ar 7 Tachwedd 2016, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, heblaw'r darpariaethau yn adrannau 3(6), 4(6), 14(8) a pharagraffau 6 a 9 o Atodlen 1;

- yn ei barn hi, ni fyddai'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd oherwydd bod angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar eu cyfer ac na chafwyd cydsyniad o'r fath pan gyflwynwyd y Bil.

**10.** O ran cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, esboniodd y Llywydd fod ei phenderfyniad yn gyson â phenderfyniadau blaenorol a wnaed yn y Pedwerydd Cynulliad, a'i bod wedi ceisio barnu a fyddai'r Bil o fewn cymhwysedd pe bai'n cael ei basio yn yr un ffurf â phan gafodd ei gyflwyno. Cafodd y Prif Weinidog gadarnhad yn dilyn hyn bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi'r cydsyniad angenrheidiol ar gyfer yr adrannau hyn.

## **Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo'i chael**

**11.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan:

---

“Mae Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ('y Bil') yn defnyddio deddfwriaeth fel dull o wella ac amddiffyn iechyd a lles poblogaeth Cymru. Mae'n cynnwys cyfres o ddarpariaethau mewn meysydd annibynnol o bolisi iechyd y cyhoedd.

Er bod nifer o'r materion a nodir yn y Bil wedi bod yn destun trafod ers cryn amser, mae'r Bil hefyd yn ymateb i heriau iechyd newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Gyda'i gilydd, y bwriad yw i'r darpariaethau fod o fudd cadarnhaol cronrus i boblogaeth Cymru a cheisio sefydlu amgylchiadau sy'n ffafriol i iechyd da, ac a fydd yn caniatáu ar gyfer atal niwed i iechyd.”

---

**12.** Yn ei datganiad llafar i gyflwyno'r Bil, dywedodd y Gweinidog:

---

“Rydym yn gwybod bod yr heriau iechyd y cyhoedd yr ydym yn eu hwynebu yn esblygu'n gyson ac yn dod yn fwyfwy cymhleth. Mae angen ymateb cynhwysfawr ac amlochrog i fynd i'r afael â nhw. Er bod gan ddeddfwriaeth swyddogaeth bwysig a phendant, ni all gyflawni yr holl welliannau ac amddiffyniadau yr ydym yn dymuno eu gweld ar ei phen ei hun. Yn hytrach, mae'n un rhan annatod o agenda ehangach—agenda sy'n cynnwys ein gwaith ni ar draws ehangder y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi afiechyd, yn ogystal â'n gwasanaethau iechyd cyhoeddus, ein rhaglenni, ein polisiau a'n hymgyrchoedd pwrpasol. Gyda'i gilydd, maent yn gwneud cyfraniad cadarnhaol cronrus, ac yn ein helpu i atal niwed y gellir ei osgoi a gwireddu ein dyheadau ar gyfer Cymru iach ac egniol, ac mae pob un ohonynt yn cysylltu'n agos ag egwyddorion gofal iechyd darbodus.

Er na all un darn o ddeddfwriaeth ateb pob problem a datrys holl heriau iechyd y cyhoedd, gall wneud gwahaniaeth cadarnhaol ac ymarferol iawn. Dyna'r hyn y mae'r Bil hwn yn ceisio ei gyflawni. Mae'n cymryd camau mewn nifer o feysydd penodol er lles grwpiau penodol yn y gymdeithas, yn ogystal ag ar gyfer cymunedau yn eu cyfanrwydd.”<sup>2</sup>

---

<sup>2</sup> Cofnod y Trafodion, Y Cyfarfod Llawn, 8 Tachwedd 2016

## 03. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

### Cefndir

**13.** Ym mis Mehefin 2015, cyflwynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), ar ôl ymgynghori ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd. Cyfeiriwyd y Bil at Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Pedwerydd Cynulliad er mwyn craffu arno.

**14.** Cynhaliwyd trafodion Cyfnod 4 (pasio'r Bil yn y Cyfarfod Llawn) ar 16 Mawrth 2016. Ni chytunodd y Cynulliad ar y cynnig i gymeradwyo'r Bil. Cafodd y Bil felly ei wrthod ac ni ddaeth yn Ddeddf.

**15.** Ym mis Tachwedd 2016, cyflwynodd y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) newydd. Mae'r Bil yn cynnwys y cynigion gwreiddiol a ystyriwyd gan y Cynulliad blaenorol ond heb y darpariaethau a oedd yn cyfyngu ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin mewn rhai manau cyhoeddus. Mae'r Gweinidog wedi datgan bod y Bil hefyd wedi elwa o'r gwaith craffu trylwyr a wnaed arno eisoes ac mae'n cynnwys y newidiadau a wnaed i'w wella yn ystod y cyfnodau gwreiddiol pan gyflwynwyd gwelliannau.<sup>3</sup>

### Y Bil

**16.** Yn ei datganiad a oedd yn cyd-fynd â'r Bil, crynhodd y Gweinidog brif ddarpariaethau'r Bil fel a ganlyn:

#### Tybaco a chynhyrchion nicotin

Mae'r Bil yn ail-ddatgan y cyfyngiadau presennol ar smygu mewn manau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig ac mae'n ymestyn y cyfyngiadau hynny i gynnwys tir ysgolion, tir ysbytai a manau chwarae cyhoeddus. Mae hefyd yn caniatáu ar gyfer gwneud mangreoedd eraill yn ddi-fwg yn y dyfodol o dan amgylchiadau penodol.

Bydd y Bil hefyd yn creu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin, a fydd yn helpu asiantaethau gorfodi i gynnal gwaharddiadau ar eu gwerthu ac atal plant a phobl ifanc rhag cael mynediad atynt. Bydd hefyd yn ei gwneud yn drosedd i roi tybaco neu gynhyrchion nicotin, gan wybod hynny, i blant sydd dan 18 oed er mwyn amddiffyn plant ymhellach rhag niwed.

#### Gweithdrefnau arbennig

Mae'r Bil yn creu cynllun trwyddedu mandadol i ymarferwyr a busnesau sy'n cynnal 'triniaethau arbennig' – sef aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu pobl sy'n dewis cael y triniaethau hyn rhag niwed os yw'r triniaethau'n cael eu rhoi'n wael.

#### Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff

Bydd y Bil yn gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn o dan 16 oed, gan gynnwys tyllau yn y tafod. Nod y cam pwysig hwn yw amddiffyn plant a phobl ifanc ymhellach rhag niwed posibl a rhag cael eu rhoi mewn sefyllfaoedd lle gallent fod yn agored i niwed.

#### Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd

<sup>3</sup> Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): 7 Tachwedd 2016

Yn dilyn newid a wnaed yn ystod y broses graffu flaenorol, yn unol â'r Bil, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau am y defnydd o asesiadau effaith ar iechyd gan gyrrff cyhoeddus mewn amgylchiadau penodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr effeithiau posibl ar iechyd corfforol a meddwl yn cael eu hystyried yn llawn cyn i benderfyniadau allweddol gael eu gwneud.

### Gwasanaethau fferyllol

Mae'r Bil yn gwneud newidiadau pwysig i'r ffordd mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu cynllunio, drwy ddefnyddio asesiadau o anghenion fferyllol. Bydd y newidiadau hyn yn helpu i sicrhau bod y system yn diwallu anghenion iechyd y cyhoedd ehangach cymunedau yn well.

### Darparu toiledau

Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau lleol ar gyfer toiledau yn eu hardaloedd. Y nod yw gwella'r ffordd y mae darpariaeth yn cael ei chynllunio a'r mynediad at doiledau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio. Bydd gwneud hyn o fudd i gymunedau cyfan yn ogystal â grwpiau fel pobl hŷn.<sup>4</sup>

17. Yn ei datganiad agoriadol i'r Pwyllgor ar 1 Rhagfyr, dywedodd y Gweinidog:

“The Bill responds to some very significant public health issues, particularly regarding smoking and the potential public health harms of intimate piercings and special procedures if carried out in an unhygienic fashion, for example. But it also takes forward some policies that benefit the whole of communities”.<sup>5</sup>

### Tystiolaeth gan ymatebwyr

18. Ar y cyfan, roedd y rheini a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor yn croesawu Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Ym marn Iechyd Cyhoeddus Cymru:

“[The Bill] will help ensure that the health and well-being of the population is considered and underpins the shared responsibility that all public bodies in Wales have for the health of the nation.”<sup>6</sup>

19. Roedd rhai ymatebwyr, fodd bynnag, yn siomedig bod y darpariaethau i gyfyngu ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin mewn rhai manau cyhoeddus wedi'u hepgor o'r Bil, ond roeddent yn cytuno y byddai'n well ganddynt weld y Bil yn cael ei basio heb y darpariaethau hyn na pheidio â phasio Bil o gwbl.<sup>7</sup> Dywedodd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol wrthym:

“Overall, I think the Bill is good. Potentially, it could have covered some of the things that were in the previous Public Health Bill that had been taken out, but I understand that perhaps there were pressures to not include some of those elements, such as the e-cigarettes.”<sup>8</sup>

20. Dywedodd nifer o ymatebwyr fod y Bil yn “gyfle wedi'i gollu” i fynd i'r afael â rhai o'r problemau mwyaf sy'n effeithio ar iechyd y cyhoedd. Meddai BMA Cymru Wales:

<sup>4</sup> Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): 7 Tachwedd 2016

<sup>5</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 136

<sup>6</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 04

<sup>7</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 08

<sup>8</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 148



---

“Whilst we offer general support for the provisions in the Bill as it currently stands, we believe that now the Bill is being looked at afresh this presents a new opportunity to expand its scope.”<sup>9</sup>

---

**21.** Roedd y dystiolaeth ysgrifenedig a’r dystiolaeth lafar yn cynnwys awgrymiadau gan ymatebwyr ynghylch meysydd y gellid eu blaenoriaethu yn y Bil, gan gynnwys camddefnyddio alcohol; unigrwydd ac unigedd; ansawdd yr aer; a gordewdra.

### **Camddefnyddio alcohol**

**22.** Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at yr angen i fynd i’r afael â chamddefnyddio alcohol. Awgrymodd lechyd Cyhoeddus Cymru fod gan Gymru gyfle i efelychu’r Alban sydd wedi bod ar flaen y gad wrth yrru’r agenda hon yn ei blaen, er mwyn lleihau’r niwed sylweddol sy’n gysylltiedig â goryfed yng Nghymru.<sup>10</sup> Dywedodd Sefydliad Siartredig lechyd yr Amgylchedd ei fod yn siomedig nad oedd y cynnig a wnaeth yn ystod yr ymgynghoriad gwreiddiol ar Fil 2015 i gyflwyno isafbris ar gyfer uned o alcohol yn ymddangos yn y Bil newydd. Meddai:

---

“Whilst we accepted that there was an argument for awaiting the outcome of the challenge to the Scottish Government proposed MUP before Welsh Government moved forward, that challenge has now been lost, and we reinforce our view that Welsh Government must take steps, which may include regulation to address the issue is the use and misuse of alcohol in Wales in order to improve the health of individual and the public health of the nation. This is an imperative and must be given urgent priority.”<sup>11</sup>

---

**23.** Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog wrthym:

---

“We don’t have the powers devolved to take action. All we can do at the moment is press the case with the UK Government and try and seek those powers, which we are actively doing, but without success.”<sup>12</sup>

---

### **Unigrwydd ac unigedd**

**24.** Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac Age Cymru fod unigrwydd ac unigedd yn ffactorau sy’n effeithio’n ddifrifol ar iechyd y cyhoedd. Dywedodd y Comisiynydd wrthym y gall unigrwydd gael effaith ddifrifol ar iechyd corfforol a meddyliol a llesiant pobl, a’i fod yn cael yr un effaith ar farwoldeb ag ysmegu 15 o sigarennau y dydd. Aeth yn ei blaen i ddweud:

---

“I have previously called for Loneliness and Isolation to be included in the Public Health (Wales) Bill as I believe it is one of the biggest public health issues facing our nation. I would like to see a duty placed on Public Services Boards, established by the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, to ensure that they take account of loneliness and isolation in their local well-being plans, in a manner that reflects the potential assets that older people are, and aim to reduce the number of people feeling lonely and isolated in their communities. I also see a role for Public Health Wales, as the national public

---

<sup>9</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 08

<sup>10</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 04

<sup>11</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 05

<sup>12</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 35



health agency that exists to protect and improve health and well-being, in addressing loneliness and isolation at the national level.”<sup>13</sup>

---

**25.** Dywedodd y Gweinidog wrthym:

“I certainly would agree that there are significant public health implications of loneliness and isolation, certainly given the evidence that seems to be emerging about it being as bad for you as smoking and other evidence of that sort. You’ll be aware that Welsh Government’s committed to tackling loneliness and isolation. It was a manifesto commitment to take a refreshed approach to this. We’ll be partly doing that through our older people’s strategy, but obviously it will have to be cross cutting, and no doubt will be part of our ‘healthy and active’ approach, as well. But whether or not there are things that we could do in this Bill in order to address that would be another question. Certainly, it is something we are committed to dealing with.”<sup>14</sup>

---

**26.** Ychwanegodd mewn tystiolaeth ddiweddarach:

“I do think that the Well-being of Future Generations (Wales) Act will be an important mechanism for addressing things like obesity, physical inactivity and loneliness and isolation (...). But I’m not sure that putting a specific requirement in the Bill is necessarily the way to do that, because, under the Act, the public services boards have to publish their local well-being strategies, setting out the objectives that they want to see achieved on a local basis, and that will also demonstrate how the public services boards will be working towards meeting the goals of a healthier Wales, and that will include addressing all of the issues that you’re just discussed there.”<sup>15</sup>

---

### **Ansawdd yr aer**

---

**27.** Awgrymodd Sefydliad Prydeinig y Galon fod y Bil yn ddiffygiol yn y maes pwysig hwn o ran iechyd y cyhoedd<sup>16</sup>, ac roedd Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint yn cyd-weld. Galwodd am gynnwys egwyddor gyffredinol yn y Bil a honno'n ceisio lleihau effaith llygredd aer ar bobl Cymru, gan gyflwyno dyletswyddau cyfreithiol penodol ar gyfer:

- byrddau iechyd lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i roi gwybod i’r rheini sy’n fwyaf agored i niwed yn sgil aer budr am ragolygon o lefelau llygredd aer uchel;
- awdurdodau lleol i fonitro ansawdd yr aer yn drylwyr y tu allan i ysgolion ac ar lwybrau teithio llesol;
- awdurdodau lleol i gyhoeddi data'n rheolaidd am ansawdd yr aer mewn ffordd safonol a hygrych.

---

<sup>13</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 33

<sup>14</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 264

<sup>15</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 10

<sup>16</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 22

**28.** Dywedodd y Gweinidog wrthym:

“The Welsh Government has recently consulted widely on air pollution. This is something that has been led by the Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs. The consultation closed, I believe, in December and I actually met the Cabinet Secretary this week to discuss how we can work together from a public health perspective in terms of addressing issues of air quality. The Cabinet Secretary said that she’d be happy to consider evidence that we receive as part of this inquiry, in terms of the wider work that she’s doing there, to address air quality. I think it would be (...) inconsistent if we were to take action within the public health Bill on air quality whilst there is an existing consultation, which has only just closed, at the moment.”<sup>17</sup>

**Gordewdra**

**29.** Roedd yr Arolwg Iechyd Cymru diweddaraf yn dangos bod 59% o oedolion Cymru dros bwysau neu’n ordew.<sup>18</sup> Dywedodd BMA Cymru Wales wrthym:

“Obesity is a very big subject in every way. Some people call it the new smoking as a determinant of health. It’s probably one of the biggest challenges we face and, until recently, it was increasing substantially. We do recognise that many of the levers of obesity – of which there are a multiple, and that’s one of the issues – are outwith the competence of the Assembly. They’re either at Westminster or at Brussels. So, hence, what we’ve focused on is not to talk about, say, advertising or food formulation, but instead things that are within competence of the Assembly, such as nutritional standards in certain settings and placing those on a statutory basis.”<sup>19</sup>

**30.** Meddai hefyd:

“We believe that it could also be beneficial for the nutritional standards for hospital inpatients to be placed on a statutory basis, as well as for new nutritional standards for pre-school and care home settings to be similarly made statutory. Particularly when considering pre-school and care home settings, where there are many independent providers, we feel that having these standards applied on a statutory basis would greatly enhance the Welsh Government’s ability to see them effectively enforced. Provisions which fail to adhere to the new standards could then be subject to appropriate legal penalty.”

**31.** Awgrymodd hefyd y dylid diwygio’r Bil er mwyn cynnwys gofyniad statudol penodol ar gyffwrdd cyhoeddus yng Nghymru i ddatblygu a rhoi ar waith strategaethau i fynd i'r afael â gordewdra. Rydym yn cydnabod bod ffordd eisoes ar gael ar gyfer gwneud hyn drwy’r gofyniad sydd ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol i greu Cynlluniau Llesiant

<sup>17</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 37

<sup>18</sup> Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, [Arolwg Iechyd Cymru 2015](#)

<sup>19</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 157

Lleol. Mae angen i'r cynlluniau hyn gynnwys amcanion i gyflawni'r saith o nodau llesiant a ddiffinnir gan y Ddeddf, ac mae angen adolygu'n flynyddol y cynnydd a wneir wrth roi'r cynlluniau hyn ar waith.<sup>20</sup>

**32.** Dywedodd y Gweinidog wrthym:

“With regard to nutritional standards, I know that was something that was included in the Bill the first time around, but then it was removed because, actually, we thought, ‘Well, we can just get on and make some progress with nutritional standards without them necessarily needing to be on the face of the Bill.’ So, when I came to committee last time, I said that we were currently looking at the nutritional standards for early years settings and older people in care homes, and I’m pleased to say we’re making good progress with that. So, we’re finalising those nutritional standards at the moment. Many nurseries, for example, are already covered under this legislation, because they actually sit on the sites of schools, so they’ll be covered under the schools legislation, and we’re already introducing a wide range of nutritional standards and nutritional work in our hospital settings. For example, all local health boards have received directions in relation to mandatory food and fluid nutrition standards for patients, mandatory food and drink standards for vending machines, and also guidance in terms of food and drink for the people who are visiting the hospitals as well. And we’re having ongoing discussions with stakeholders in terms of what we can do to improve nutritional standards in canteen settings and in retail settings in hospitals as well.”

“So, this work is already going on, and we also have the revised nutritional criteria for the corporate health standard as well, which requires all of our health boards to achieve gold standard in that, and to make the necessary changes that they have to do in order to achieve that through nutritional improvements as well. So, whilst I understand there’s a keenness to explore what more we can possibly add to the Bill, I do think that nutritional standards have been addressed, and are being addressed, outside of the scope of the Bill.”<sup>21</sup>

## Ein barn ni

**33.** Ar y cyfan, rydym yn croesawu'r cynigion ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), ac yn credu y bydd y camau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd y cyhoedd. Rydym wedi gwneud amryw o argymhellion a chredwn y bydd y rhain yn cryfhau'r ddeddfwriaeth ac yn osgoi rhai canlyniadau anfwriadol posibl. Mae manylion am hyn yn y penodau sy'n dilyn.

**34.** Fodd bynnag, mae ein cefnogaeth i'r Bil yn ddibynnol ar un amod pwysig. Wrth ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil hwn, ac i ba raddau y bydd ei ddarpariaethau yn cyfrannu at wella iechyd pobl Cymru, cawsom ein hatgoffa dro ar ôl tro mai gordewdra yw'r her fwyaf sy'n wynebu iechyd y cyhoedd yn ein gwlad. Rydym yn rhannu pryderon rhanddeiliaid nad oes camau amlwg i fynd i'r afael â'r broblem hon ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Mae gordewdra yn gymaint o fygythiad i iechyd y boblogaeth fel na ddylai fod unrhyw betruso yn ei gylch, waeth pa mor anodd neu gymhleth yw'r her honno. Cytunwn â'r Gweinidog na all un darn o ddeddfwriaeth roi sylw i'r holl bethau sy'n achosi

<sup>20</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 08

<sup>21</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraffau 5 a 6

gordewdra; yn wir, ceir cydnabyddiaeth eang y bydd angen gwneud hynny mewn sawl ffordd wahanol ar yr un pryd. Oherwydd hyn, credwn ei bod yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio pob dull sydd ganddi, gan gynnwys y cyfleoedd a ddaw yn sgil deddfwriaeth, er mwyn cymryd camau i geisio lleihau gordewdra.

**35.** Wrth gasglu tystiolaeth, gwelsom fod camau y gall Llywodraeth Cymru eisoes eu cymryd, ond nad yw'n manteisio'n llwyr ar y pwerau sydd ganddi'n barod yn y maes hwn.

**36.** Credwn y dylid cymryd camau yn rhai o'r meysydd y dywedodd rhanddeiliaid eu bod yn flaenoriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gwneud darpariaeth i roi sail statudol i safonau maeth mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, cartrefi gofal ac ysbytai;
- cryfhau'r gofynion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran cynlluniau llesiant lleol byrddau gwasanaethau cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod y rhain yn cynnwys camau i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd fel gordewdra, diffyg gweithgarwch corfforol ac unigrwydd ac unigedd;
- defnyddio'r pwerau yn y Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) i wahardd unrhyw ddiodydd ac ynddynt siwgr ychwanegol rhag bod ar gael mewn ysgolion. Credwn y byddai hyn hefyd yn cyfrannu at wella iechyd y geg ymhlith plant a phobl ifanc.

**37.** O ran unigrwydd ac unigedd, nodwn a chroesawn ymrwymiad y Gweinidog i fynd i'r afael â hyn, er nad trwy'r Bil hwn y bydd yn gwneud hynny. Byddwn hefyd yn cynnal ein hymchwiliad ein hunain i unigrwydd ac unigedd, gan edrych, ymhlith pethau eraill, ar raddfa'r broblem a'r hyn sy'n ei hachosi; yr effaith ar iechyd meddyliol a chorfforol pobl hŷn; a'r polisiau presennol sy'n cael eu defnyddio i geisio datrys y broblem yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at gyflwyno ein canfyddiadau i'r Gweinidog ac at gydweithio â hi i helpu i roi sylw i'r mater pwysig hwn.

**38.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ynghylch llygredd aer a gofynnwn i'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y gwaith y mae hi ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn ei wneud i roi sylw i faterion sy'n ymwneud ag ansawdd yr aer o safbwynt iechyd y cyhoedd.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn edrych yn ddiymdroi ar y posibilrwydd, drwy'r ddeddfwriaeth hon a'r pwerau sydd ganddi eisoes, i gyflwyno camau i fynd i'r afael â gordewdra a materion eraill sy'n flaenoriaeth ym maes iechyd y cyhoedd, gan gynnwys:

- gwneud darpariaeth i roi sail statudol i safonau maeth mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, cartrefi gofal ac ysbytai.
- cryfhau'r gofynion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran cynlluniau llesiant lleol byrddau gwasanaethau cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod y rhain yn cynnwys camau i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd, fel gordewdra, diffyg gweithgarwch corfforol ac unigrwydd ac unigedd.

- defnyddio'r pwerau yn y Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) i wahardd unrhyw ddiodydd ac ynddynt siwgr ychwanegol rhag bod ar gael mewn ysgolion.

## 04. Rhan 2: Tybaco a chynhyrchion nicotin – Pennod 1: Ysmygu

**39.** Mae Pennod 1 o'r Bil yn ailddatgan cyfyngiadau ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig a gweithleoedd, ynghyd â chyfyngiadau ar ysmygu ar dir ysgolion, tir ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus. Mae adran 10 yn cynnwys darpariaeth i greu mangreoedd di-fwg ychwanegol drwy reoliadau os bydd Gweinidogion Cymru yn fodlon y bydd gwneud hynny "yn debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru".

**40.** At ddibenion y Bennod hon, mae cyfeiriadau at "ysmygu" yn gyfeiriadau at ysmygu tybaco neu unrhyw beth sy'n cynnwys tybaco, neu at ysmygu unrhyw sylwedd arall; ac mae ysmygu yn cynnwys bod â meddiant ar dybaco sydd wedi ei danio neu ar unrhyw beth sydd wedi ei danio ac sy'n cynnwys tybaco, neu fod â meddiant ar unrhyw sylwedd arall sydd wedi ei danio ar ffurf y gellid ei ysmygu.

**41.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan mai nod y darpariaethau hyn "yw lleihau pa mor aml y bydd plant yn dod i gysylltiad ag ymddygiadau ysmygu oedolion o dydd i ddydd a, thrwy hynny, eu gwneud yn llai tebygol o dyfu i fyny'n meddwl bod ysmygu'n uchelgais neu'n ymddygiad normal ymhlith oedolion".<sup>22</sup>

**42.** Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, eglurodd y Gweinidog y rhesymeg dros ddewis tir ysgolion, tir ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus yn hyn o beth:

---

"[they] were identified as priority areas in our tobacco control action plan for Wales, and these areas have continued to be highlighted by stakeholders as particular areas of concern, mostly because of the health message that you have in hospitals, but also of sending the right message to children and not making children be surrounded by tobacco and smoking in areas that are designed for them."<sup>23</sup>

---

**43.** Roedd rhanddeiliaid yn gyson o blaid y darpariaethau hyn. Dim ond un ymateb, gan Japan Tobacco International, nad oedd o blaid ymestyn y gwaharddiad ar ysmygu i fannau yn yr awyr agored. Awgrymodd nad oes digon o lenyddiaeth wyddonol am fwg tybaco yn yr awyr agored. O ganlyniad, dywedodd y byddai ymestyn y gwaharddiad i gynnwys mannau yn yr awyr agored yn gam "eithafol".<sup>24</sup>

**44.** Awgrymodd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd y dylid ehangu'r cyfyngiadau ar dir ysgolion i gynnwys lleoliadau'r blynyddoedd cynnar (e.e. meithrinfeydd, grwpiau chwarae).<sup>25</sup> Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru o blaid hyn hefyd:

---

"Our focus is particularly on places where children are present. We feel that we need to be much more focused on trying to remove smoking as something that's seen. So, early years settings are an obvious one because, obviously,

---

<sup>22</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 67

<sup>23</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 155

<sup>24</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 24

<sup>25</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 05

they're a bit like schools. We feel that there's no place for smoking where very young children are and it can be seen by very young children.”<sup>26</sup>

---

- 45.** Galwodd un ymateb, gan Fontem Ventures, am newid y diffiniad er mwyn hepgor y geiriau “wedi ei danio” ar ôl “tybaco”. Os nod y Bil oedd helpu i leihau effaith tybaco a’r carsinogenau sydd ynddo, yna dylid sicrhau bod pob math o dybaco, ac nid tybaco traddodiadol sydd ‘wedi ei danio’ yn unig, yn cael ei gynnwys.<sup>27</sup>
- 46.** Roedd lechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn cyd-weld â’r Comisiynydd Plant<sup>28</sup> ac ASH Wales Cymru<sup>29</sup> a’u barn y dylid ymestyn y gwaharddiadau i gynnwys gathiau’r ysgol/terfynau allanol tir yr ysgol, ar y sail y gallai caniatáu i oedolion ysmegu wrth y gathiau yng ngolwg y plant gael effaith negyddol ar y nod o wneud ysmegu yn “llai normal”.
- 47.** Awgrymodd tystion fannau eraill lle dylid cyflwyno gwaharddiadau, gan gynnwys ystadau carchardai ac ysbytai diogel,<sup>30</sup> llochesi bws<sup>31</sup> a thraethau.<sup>32</sup>
- 48.** O ran meysydd chwarae cyhoeddus, roedd gan nifer o ymatebwyr bryderon am y diffiniad o faes chwarae. Teimlai Sefydliad Siartredig lechyd yr Amgylchedd y dylid ehangu’r diffiniad i gynnwys manau agored a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau hamdden fel meysydd pêl-droed a rygbi. Roedd lechyd Cyhoeddus Cymru yn cyd-weld.<sup>33</sup> Teimlai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<sup>34</sup>, Cyfarwyddwyr Diogelu’r Cyhoedd Cymru<sup>35</sup> a Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol<sup>36</sup> y byddai’r diffiniad yn un gwell pe bai’n fwy eglur.
- 49.** Achos pryder i nifer o ymatebwyr<sup>37</sup> hefyd oedd yr ardaloedd hynny sydd yn union y tu allan i adeiladau lle mae gwaharddiad ar ysmegu. Dywedodd Liz Vann, Uwch Swyddog Siartredig lechyd yr Amgylchedd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen:

---

“It is disappointing that this is not being extended to have a ‘limit’ to prevent people smoking in doorways, windows and access and egress of the entrance ways to business premises. Complaints are being received relating to the fact that patrons and staff have to walk through a ‘smoking fog’ in some instances, where there is no specific area for smokers, for instance high street public houses and businesses.”

---

- 50.** Awgrymodd lechyd Cyhoeddus Cymru<sup>38</sup> a Chyfarwyddwyr lechyd y Cyhoedd y Byrddau lechyd Lleol y dylid ystyried ehangu’r gwaharddiadau i gynnwys manau bwyta yn yr awyr agored, fel y gwnaed yn Awstralia. Meddai Dr Gill Richardson o Fwrdd lechyd Lleol Aneurin Bevan:

---

<sup>26</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2016, paragraff 37

<sup>27</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 35

<sup>28</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 36

<sup>29</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 29

<sup>30</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 03 a PHB 16

<sup>31</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 36

<sup>32</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 29

<sup>33</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 04

<sup>34</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 26

<sup>35</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 07

<sup>36</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 170

<sup>37</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 03, PHB 04, PHB 36 a Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 170

<sup>38</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2016, paragraff 64



---

“A lot of smokers have moved, for instance, say, from the restaurant and public house into the beer garden, but actually there are a lot of children in the beer garden or the outdoor dining space and there isn’t a choice for families, now, who want to eat outside, but perhaps don’t want their children exposed to second-hand smoke.”<sup>39</sup>

---

**51.** Yn gyffredinol, roedd pobl o blaid y gwaharddiadau ar ysmegu ar dir ysbytai, gan deimlo y byddai hyn yn helpu byrddau iechyd lleol i orfodi eu polisiau di-fwg. Fodd bynnag, mae’r Bil yn gwneud darpariaeth sy’n galluogi rheolwyr ysbytai i ddynodi unrhyw ardal ar dir yr ysbyty yn ardal lle caniateir ysmegu.

**52.** Roedd ASH Wales Cymru yn anghytuno â’r ddarpariaeth hon, gan ddatgan:

---

“The message that people (patients, visitors and staff) should not expect their smoking behaviour to be facilitated by the National Health Service therefore needs to be reinforced in an unambiguous way. It should be made clear that you cannot come to NHS premises and expect to smoke, given that smoking is the single largest avoidable cause for many serious illnesses.”<sup>40</sup>

---

**53.** Teimlai rhai ymatebwyr y dylai’r gwaharddiadau fod yn llymach ac y dylent fod yn berthnasol i bob cyfleuster gofal iechyd (canolfannau iechyd, clinigau ac yn y blaen). Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru:

---

“We’re not sure of the rationale for just including hospitals in this Bill. We think any premises that are predominantly used for healthcare should be included.”<sup>41</sup>

---

**54.** Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bod angen rhoi cymorth i ysmygwyr. Dywedodd Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru ei bod yn anodd i bobl roi’r gorau i ysmegu. Mewn cyfnodau o straen neu wrth wynebu newyddion drwg, gall sigarét helpu pobl i ymdopi.<sup>42</sup> Dywedodd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol wrthym:

---

“It’s important that, when people are admitted to hospital, they’re always asked about their smoking status, and that there’s an active offer, as it were, of nicotine-replacement products so that they’re getting the nicotine fix even if they’re not smoking.”<sup>43</sup>

---

**55.** Roedd Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd y Byrddau Iechyd Lleol yn cytuno ei bod yn bwysig rhoi cyflenwad amgen o nicotin i gleifion, fel nad ydynt yn gweld eisiau’r nicotin ar adeg pan fyddant yn ddigalon ac yn ddibynnol iawn.<sup>44</sup>

**56.** Roedd y Gweinidog yn cydnabod y gallai fod meysydd y byddai’n ddymunol eu cynnwys yn rhan o’r Bil yn y dyfodol, a’i bod yn agored i glywed syniadau am y pethau y gellid edrych arnynt yn ymarferol yn hynny o beth.<sup>45</sup>

---

<sup>39</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2016, paragraff 178

<sup>40</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 29

<sup>41</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2016, paragraff 61

<sup>42</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 09

<sup>43</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 177

<sup>44</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2016, paragraff 198

<sup>45</sup> Cofnod y Trafodion 1 Rhagfyr 2016, paragraff 155



## Troseddau a gorfodi

**57.** Mae Adran 3 yn cyflwyno darpariaethau sy'n ei gwneud yn drosedd ysmegu mewn mangre ddi-fwg neu mewn cerbyd di-fwg. Dim ond yn llys yr ynadon y gellir dwyn achos am hyn, ac mae modd rhoi cosb ar euogfarn o ddirwy nad yw'n uwch na lefel 1 ar y raddfa safonol (£200 ar hyn o bryd).

**58.** Yn gyffredinol, roedd pobl o blaid y darpariaethau hyn, gyda Chonffederasiwn GIG Cymru yn datgan:

“While there is evidence of voluntary bans being effective in some areas, at present, without clear legal backing, voluntary behaviours are difficult to enforce. Legislation would send a clear message around smoking being prohibited in these areas and make consistent enforcement much easier.”<sup>46</sup>

## Mangreoedd di-fwg ac esemptiadau

**59.** Mae Adran 5 yn pennu bod “gweithleoedd” yn fangreoedd di-fwg ac yn rhoi diffiniad o “weithle” at ddibenion y Bennod hon. Mae hyn yn ailddatgan y gwaharddiadau ar ysmegu sydd eisoes yn bodoli.

**60.** Roedd gan Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru bryder am y diffiniad o “weithle” o ran yr effaith bosibl ar glerigion a'u teuluoedd. Meddai:

“Mae gan y mwyafrif helaeth o bobl fan gwaith a chartref ar wahân. Nid yw clerigion yn gallu gwahaniaethu rhwng y ddau fel hyn, ac yn hynny o beth maent yn anarferol iawn. Mae rhai clerigion (a rhai aelodau o'u teuluoedd a phobl eraill sy'n byw gyda nhw) yn smygu tybaco ac yn defnyddio esigarennau; a rydym yn pryderu y gallai'r ddeddfwriaeth, fel y'i drafftiwyd, effeithio'n arbennig o galed ar y bobl hyn.”<sup>47</sup>

## Cerbydau di-fwg

**61.** Mae Adran 12 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu y dylai cerbydau fod yn rhai di-fwg.

**62.** Mae datganiad Llywodraeth Cymru ar fwriad polisi'r Bil yn dweud y dylai pob cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio i gludo'r cyhoedd neu at ddibenion gwaith gan fwy nag un person fod yn ddi-fwg gydol yr amser. Nid yw'n fwriad polisi ar hyn o bryd i'w gwneud yn ofynnol i gerbydau preifat, gan gynnwys cerbydau a gaiff eu llogi'n breifat, fod yn ddi-fwg oni bai eu bod yn cludo pobl o dan 18 oed, neu fod y car sy'n cael ei logi yn cynnwys gyrrwr. Os hynny, mae'r car a gaiff ei logi yn weithle a dylai fod yn ddi-fwg.<sup>48</sup>

**63.** Roedd ymatebwyr ar y cyfan yn croesawu'r ddarpariaeth hon. Tynnodd Comisiynydd Plant Cymru sylw at adroddiad ymchwil ASH Wales Cymru, '**Second Hand Smoke: The Impact on Children**', sy'n dweud bod ysmegu mewn ceir yn hynod o beryglus gan fod lefelau mwg ail law yn arbennig o uchel, a hynny gan fod ceir yn gaeedig, hyd yn oed pan fydd y cerbyd wedi'i awyru'n dda.<sup>49</sup>

<sup>46</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 03

<sup>47</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 13

<sup>48</sup> Llywodraeth Cymru **Datganiad ar fwriad polisi'r Bil**, tudalen 10

<sup>49</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 36

## Ein barn ni

**64.** Rydym yn cefnogi'r cyfyngiadau arfaethedig ar ysmegu ar dir ysgolion, tir ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus, ac yn credu y bydd hyn yn bwysig er mwyn diogelu pobl rhag cael niwed yn sgil mwg ail-law. Fodd bynnag, credwn y dylid amddiffyn mwy o blant yn yr un modd drwy ymestyn y cyfyngiadau ar ysmegu i leoliadau addysg a gofal plant y blynyddoedd cynnar; gatiâu'r ysgol (gan ddatblygu ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i gyflwyno gwaharddiadau gwirfoddol); ac ardaloedd ffiniol meysydd chwarae cyhoeddus. Drwy leihau'r cyfleoedd ymhellach i blant weld pobl yn ysmegu, credwn y bydd cyfyngu ar ysmegu yn y manau ychwanegol hyn yn cyfrannu'n well at y nod o wneud ysmegu yn llai normal.

**65.** O ran tir ysbytai, nodwn fod darpariaeth yn y Bil i reolwyr ysbytai ddynodi unrhyw ardal yn nhir ysbyty yn ardal lle caniateir ysmegu. Lle bydd cyfleusterau o'r fath ar gael, credwn eu bod yn rhoi cyfle i annog ac i roi cymorth a chynghor i bobl roi'r gorau i ysmegu. Rhaid manteisio i'r eithaf felly ar y cyfleoedd hyn.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymhell bod y Gweinidog, fel blaenoriaeth gyntaf, yn gwneud y gwaith angenrheidiol er mwyn ymestyn y cyfyngiadau ar ysmegu i leoliadau addysg a gofal plant y blynyddoedd cynnar; gatiâu'r ysgol (gan ddatblygu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i gyflwyno gwaharddiadau gwirfoddol); ac ardaloedd ffiniol meysydd chwarae cyhoeddus.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn edrych ar y posibilrwydd o ymestyn y gwaharddiadau i gyfleusterau chwarae/chwaraeon eraill, fel meysydd chwarae, ardaloedd gemau amrywiol, parciau sglefrio ac ati, yn ogystal â thir cyfleusterau gofal iechyd eraill.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn gweithio â byrddau iechyd lleol er mwyn sicrhau bod cymorth a chynghor i roi'r gorau i ysmegu ar gael yn helaeth mewn lleoliadau gofal iechyd. Dylid rhoi pwyslais penodol ar hyn mewn unrhyw ardaloedd ysmegu yn yr awyr agored, os ydynt ar gael.

## 05. Rhan 2: Tybaco a chynhyrchion nicotin – Pennod 2: Manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin

### Cofrestr o fanwerthwyr

**66.** Mae Pennod 2 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau i sefydlu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin.

**67.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan mai diben y darpariaethau ym Mhennod 2 yw:

“... diogelu plant a phobl ifanc o dan 18 oed rhag y niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio tybaco a nicotin. Cyflawnir hyn trwy roi rhestr benodol i awdurdodau lleol o'r manwerthwyr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu nicotin yn ardal eu hawdurdod. Bydd hyn yn cynorthwyo swyddogion safonau masnach yn yr ardaloedd hyn i orfodi deddfwriaeth tybaco sydd eisoes yn bodoli, a rhoi canllawiau a gwybodaeth i fanwerthwyr am eu cyfrifoldebau o ran deddfwriaeth tybaco a chynhyrchion nicotin.”<sup>50</sup>

**68.** Dywedodd y Gweinidog wrthym:

“The creation of the register will give local authorities for the first time a full picture as to which retailers are selling nicotine products. They don't have that information at the moment. This will help them in their enforcement duties, because they know where these retailers are, but it will also help them in supporting retailers as well, in terms of giving them information and advice to prevent them being in a position where they're selling to under-18s.”<sup>51</sup>

**69.** Bydd pob manwerthwr sy'n gwerthu cynnyrch tybaco neu gynnyrch nicotin yng Nghymru yn gorfod cofrestru ag Awdurdod Cofrestru (i'w bennu mewn rheoliadau) er mwyn cael hawl i werthu'r cynhyrchion hyn. Bydd angen i'r Awdurdod Cofrestru gyhoeddi rhestr o enwau pawb sydd wedi'u cofrestru, a chyfeiriad pob mangre lle caiff cynhyrchion tybaco neu nicotin eu gwerthu. Rhaid i'r rhestr hon, a'r wybodaeth arall ar y gofrestr sy'n ymwneud â mangre oedd yn eu hardaloedd, fod ar gael i'r awdurdod lleol perthnasol.

**70.** Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn croesawu'r cynigion, ac eithrio'r Gymdeithas Siopau Cyfleustra a Ffederasiwn Cenedlaethol y Manwerthwyr Papurau Newydd, a ddywedodd y byddai hyn yn golygu bod camau gorfodi'n canolbwyntio ar fanwerthwyr cyfreithlon, cyfrifol, ac yn gwneud fawr ddim i fynd i'r afael â masnachu anghyfreithlon. Roedd Cyngor Sir Penfro hefyd yn gwrthwynebu, am resymau tebyg. Meddai:

“The Tobacco Retailers Register will penalise those that do not flout the law whilst doing very little for those that do and sell tobacco products on the black market. There is the whole process of keeping it up to date and relevant. How do you remove someone? It will become a distraction and utilise resources better used elsewhere.”<sup>52</sup>

<sup>50</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 96

<sup>51</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 182

<sup>52</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 28

**71.** Roedd y rheini a oedd o blaid creu cofrestr yn credu y byddai hyn yn cryfhau'r agenda i reoli tybaco yng Nghymru, ac ei fod yn gam sy'n unol â Chynllun Gweithredu Cymru ar Reoli Tybaco. Awgrymodd Sefydliad Prydeinig y Galon y byddai'n help i fynd i'r afael â masnachu anghyfreithlon a gwerthu i bobl o dan oed, ac yn gymorth i wneud ymchwil i reoli tybaco.<sup>53</sup>

**72.** Dywedodd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd:

“I think it's extremely important, from an enforcement point of view, that we know who the retailers are, who lawfully are retailing tobacco. Then, you can say, by exception, 'If you're not on the register, you're not a lawful retailer of tobacco'. And we need that really hard line so that we can look at places where tobacco is being sold from garages in residential areas and say, 'Look, you can't be doing this, you're not a lawful retailer of tobacco and therefore you are committing an offence'.

The one concern we have is that we don't think that the wording of the Act covers sufficiently well online retail sales in Wales from outside Wales.”<sup>54</sup>

**73.** Roedd nifer o'r ymatebwyr yn credu y gellid cryfhau'r cynigion ymhellach drwy gynnwys “prawf person addas a phriodol”.<sup>55</sup> Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf:

“We feel that success of such a measure will be strengthened by including provisions to control access to the register such as a 'fit & proper persons' or 'suitable person's' test. For example, whether a retailer has been convicted for the sale of alcohol, solvents or other age restricted products to minors.”<sup>56</sup>

**74.** Roedd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd yn cytuno:

“... the chartered institute (...) would very much like to see a fit-and-proper-person test. There are individuals who have convictions that mean, to our mind, they shouldn't be selling tobacco, particularly where they've sold tobacco or alcohol or other age-restricted products in breach of that legislation—they shouldn't be selling cigarettes to children. We've seen that the removal of alcohol licenses from certain premises for breaches of legislation has been an extremely effective way of dealing with sales to underage people. I think that a replication of that sort of test would be very useful.”<sup>57</sup>

**75.** Roedd ymatebwyr eraill<sup>58</sup> yn teimlo y dylai'r gofrestr hefyd gynnwys y rheini sy'n cynhyrchu, yn dosbarthu ac yn gwerthu cynnyrch tybaco, gan y byddai hyn yn sicrhau bod pobl eraill sy'n rhan o'r gadwyn tybaco wedi'u rhestru.<sup>59</sup>

<sup>53</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 22

<sup>54</sup> Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraffau 183 a 188

<sup>55</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 05, PHB 07, PHB 28. Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 51

<sup>56</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 31

<sup>57</sup> Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 188

<sup>58</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 07, PHB 28

<sup>59</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 04

**76.** Roedd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd yn cytuno:

“We would particularly support wholesalers being included, places like cash-and-carries, where they do sell to retailers for onward retail sale, but there is also a provision for people who have a card, if you like, to buy for their own personal use. We’re very anxious that they shouldn’t fall through the gap.”<sup>60</sup>

**77.** Awgrymodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol y dylid creu trosedd er mwyn sicrhau mai dim ond i'r rheini sydd ar y gofrestr y gellid dosbarthu neu werthu tybaco. Roedd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru yn cytuno, gan awgrymu hefyd bod achos dros gynnwys pwerau i wrthod cofrestru pobl.<sup>61</sup>

**78.** Roedd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol yn benodol yn croesawu cynnwys cynhyrchion nicotin. Er mai prin yw'r dystiolaeth eu bod yn achosi niwed, dywedodd y Coleg fod y defnydd cynyddol o'r dyfeisiau hyn, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc, yn achos pryder gan nad yw'r effeithiau ar eu hiechyd eto yn hysbys.<sup>62</sup> Awgrymodd nifer o ymatebwyr,<sup>63</sup> serch hynny, y dylai fod cofrestri ar wahân ar gyfer tybaco a chynhyrchion nicotin, gan eu bod yn wahanol iawn ac yn gofyn am roi negeseuon gwahanol i'r manwerthwr.<sup>64</sup>

**79.** Tynnodd Fferylliaeth Gymunedol Cymru a'r Company Chemists' Association sylw at bwysigrwydd therapi disodli nicotin wrth roi'r gorau i ysmegu, gan awgrymu y dylai fferyllfeydd sy'n cyflenwi cynhyrchion nicotin sydd wedi'u trwyddedu'n feddygol fod wedi'u heithrio o ofynion y ddeddfwriaeth.<sup>65</sup> Galwodd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol am gynnwys pob fferyllfa sy'n cyflenwi therapi disodli nicotin yn awtomatig ar y gofrestr.<sup>66</sup>

**80.** Yn ei thystiolaeth ar 11 Ionawr 2017, cadarnhaodd y Gweinidog na fyddai gofyn i fanwerthwyr a fferyllwyr sy'n gwerthu therapiau disodli nicotin a sydd â thrwydded feddygol ar gyfer hynny fod yn rhan o'r gofrestr. Fodd bynnag, dywedodd fod nifer ohonynt yn gwerthu cynhyrchion nicotin eraill ochr yn ochr â rhai sydd wedi'u trwyddedu at ddibenion meddygol. Gan hynny, dywedodd y byddai'n rhaid i'r rheini sy'n gwerthu'r naill a'r llall gofrestru ar y sail eu bod yn gwerthu cynhyrchion nad ydynt wedi'u trwyddedu ar gyfer defnydd meddygol.<sup>67</sup>

**81.** Mae adran 47(2) yn datgan y byddai rheoliadau sydd i'w gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol yn pennu'r disgrifiad o "gynnyrch nicotin". Mae'r datganiad gan Lywodraeth Cymru ar fwriad polisi'r Bil yn dweud bod Gweinidogion Cymru yn bwriadu defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn yr adran hon i ddiffinio "cynhyrchion nicotin" fel unrhyw gynnyrch nicotin lle mae cyfyngiad oedran ar gyfer ei werthu. Mae'n datgan na fydd cynhyrchion nicotin lle nad oes cyfyngiad oedran ar gyfer eu werthu, neu rai sydd wedi'u trwyddedu fel meddyginiaeth, yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o "gynnyrch nicotin".<sup>68</sup>

**82.** Mae Adran 28 yn darparu y gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth i ofyn am ffi wrth i rywun gyflwyno cais i'r Awdurdod Cofrestru. Mae datganiad Llywodraeth Cymru ar fwriad

<sup>60</sup> Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 190

<sup>61</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 07

<sup>62</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 06

<sup>63</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 35, PHB 39

<sup>64</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 29

<sup>65</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 12, PHB 23

<sup>66</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 34

<sup>67</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 60

<sup>68</sup> Llywodraeth Cymru [Datganiad ar fwriad polisi'r Bil](#), tudalen 26

polisi'r Bil yn dweud nad yw "union fanylion y strwythur ffoedd wedi eu penderfynu eto, ond y bwriad ar hyn o bryd yw cael ffi o £30 i dalu am gais ac i gofrestru un fangre, â £10 arall ar gyfer pob mangre ychwanegol".<sup>69</sup> Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal, fel y nodir ar wyneb y Bil, cyn gosod y rheoliadau eu hunain. Byddai'r ymgynghoriad hwnnw'n cynnwys ymgynghori ynghylch lefel y ffi.<sup>70</sup>

**83.** Roedd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra, Ffederasiwn Cenedlaethol y Manwerthwyr Papurau Newydd a Japan Tobacco International i gyd yn gwrthwynebu cyflwyno ffi cofrestru, gan gyfeirio at Gofrestr Manwerthwyr Tybaco yr Alban. Yno, mae'r nifer sy'n cydymffurfio yn uchel, er ei fod yn rhad ac am ddim i'r masnachwyr.<sup>71</sup> Roedd cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol a Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru, fodd bynnag, yn pwysleisio bod angen gosod ffi er mwyn adennill costau.

## Troseddau a gorfodi

**84.** Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am orfodi'r darpariaethau hyn. Mae'r Bil yn rhoi pwerau mynediad i swyddogion awdurdodau lleol i fynd i mewn i fangre oedd yng Nghymru lle mae seiliau rhesymol dros gredu bod trosedd wedi cael ei chyflawni neu wrthi'n cael ei chyflawni. Ni fyddai'r pwerau mynediad yn ymestyn i gynnwys mangre oedd a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel anheddau heb gael gwarant gan ynad heddwch. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i roi pwerau arolygu i swyddogion awdurdodau lleol awdurdodedig, ac i greu troseddau ac i roi dirwyon heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000 ar hyn o bryd) i'r rheini sy'n rhwystro swyddogion o'r fath rhag gwneud eu gwaith.

**85.** Mae Adran 46 yn darparu y gall swyddogion awdurdodedig roi hysbysiadau cosb benodedig am droseddau penodol, ac eithrio'r rheini sy'n ymwneud â rhedeg busnes tybaco neu nicotin heb gofrestru, neu rwystro swyddog awdurdodedig wrth ei waith. At ddibenion y bennod hon, ystyr "swyddog awdurdodedig" yw unrhyw berson (boed yn un o swyddogion yr awdurdod lleol neu beidio) sydd wedi'i awdurdodi gan awdurdod lleol.<sup>72</sup>

**86.** Er mwyn i gofrestr o fanwerthwyr tybaco fod yn effeithiol, dywedodd ASH Wales Cymru fod angen iddo atal manwerthwyr rhag torri cyfraith tybaco, ac felly bod angen cosbau digonol i gyd-fynd â hynny. Awgrymodd fod y gofrestr o fanwerthwyr yn yr Alban wedi bod yn llai llwyddiannus wrth orfodi'r gyfraith gan mai prin yw'r erlyniadau a chan nad yw'r gofrestr yn gwella gallu swyddogion gorfodi i fynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon sy'n cael ei werthu gan bobl eraill ac eithrio'r manwerthwyr cyfreithlon.<sup>73</sup>

**87.** Dywedodd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra a Ffederasiwn Cenedlaethol y Manwerthwyr Papurau Newydd y dylai swyddogion safonau masnach allu rhoi cosbau mwy effeithiol, gan gynnwys diddymu trwydded alcohol pobl sy'n gwerthu tybaco yn anghyfreithlon. Teimlai Ffederasiwn Cenedlaethol y Manwerthwyr Papurau Newydd nad oedd digon yn cael ei wneud i gosbi'r rheini sy'n cael eu dal yn gwerthu tybaco'n anghyfreithlon, tra dywedodd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra na fyddai manwerthwyr tybaco anghyfreithlon yn dewis cofrestru, ac y byddent yn barod i dderbyn y risg o wynebu camau gorfodi gan fod y gosb am beidio â chydymffurfio yr un mor llym â'r gosb o osgoi'r ddyletswydd yn y lle cyntaf.<sup>74</sup>

<sup>69</sup> Llywodraeth Cymru [Datganiad ar fwriad polisi'r Bil](#), tudalen 21

<sup>70</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 185

<sup>71</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 30, PHB 32, PHB 24

<sup>72</sup> Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, Adran 36

<sup>73</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 29

<sup>74</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 30, PHB 32

## Ein barn ni

**88.** Ar y cyfan, rydym yn fodlon â'r darpariaethau yn y Bennod hon. Nodwn bryderon manwerthwyr tybaco mai dim ond ar fanwerthwyr cyfreithlon a chyfrifol y bydd hyn yn effeithio, gan ei bod yn annhebygol y bydd y rheini sy'n gweithredu'n anghyfreithlon yn cydymffurfio. Fodd bynnag, credwn fod digon o dystiolaeth i awgrymu y bydd cyflwyno cofrestr yn cryfhau'r agenda i reoli tybaco yng Nghymru.

**89.** Credwn, fodd bynnag, y dylai'r Gweinidog edrych ar sut y mae Cofrestr Manwerthwyr Tybaco yr Alban wedi'i rhoi ar waith, a pha mor effeithiol yw honno, er mwyn gweld pa wersi y gellir eu dysgu.

**90.** Credwn y dylai'r darpariaethau yn y Bennod hon fod yn berthnasol i fusnesau cyfanwerthu sy'n gwerthu i'r cyhoedd hefyd, yn ogystal ag i fanwerthwyr. Gofynnwn i'r Gweinidog egluro'i bwriadau yn hyn o beth.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cadarnhau a fydd y gofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin yn berthnasol i fusnesau cyfanwerthu sy'n gwerthu i'r cyhoedd, a'i bod yn diwygio'r Bil a'r deunydd esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn unol â hynny.



## 06. Rhan 2: Tybaco a chynhyrchion nicotin – Pennod 3: Gwaharddiad ar werthu tybaco a chynhyrchion nicotin

**91.** Mae Adran 48 yn diwygio Adran 12D o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn diwygio'r diffiniad o droseddau sy'n ymwneud â thybaco neu nicotin. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno troseddau ychwanegol sy'n ymwneud â thybaco neu nicotin, gan alluogi awdurdodau lleol i wneud cais am Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad am y troseddau hynny. Bydd hyn yn berthnasol i fangreoedd manwerthu yng Nghymru.

**92.** Dim ond os ydynt yn fodlon bod y drosedd yn un sy'n ymwneud â chyflenwi, gwerthu, cludo, arddangos, cynnig gwerthu, hysbysebu neu feddu ar dybaco neu nicotin y gall Gweinidogion Cymru ychwanegu troseddau newydd, ac maent i'w cosbi drwy ddirwy lefel 4 ar y raddfa safonol (£2,500 ar hyn o bryd) neu uwch.

**93.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan:

“Rhagwelir y byddai buddion yn cael eu hychwanegu trwy gyfuno trefn wedi ei chryfhau ar gyfer y Gorchmynion Mangre o dan Gyfyngiad â chofrestr genedlaethol, trwy wella'r ysgogiadau presennol sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer gwaith gorfodi ym maes troseddau tybaco a nicotin. Bydd y darpariaethau hyn hefyd yn ategu'r nod polisi o'i gwneud yn anos i bobl ifanc o dan 18 oed gael gafael ar dybaco a chynhyrchion nicotin.”<sup>75</sup>

**94.** Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai angen i fanwerthwr gyflawni tair trosedd berthnasol yn ymwneud â thybaco neu nicotin o fewn cyfnod o dair blynedd cyn y byddai Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yn cael ei roi. Gan fod erlyniadau am beidio â chydymffurfio â'r rheolau ar werthu i bobl o dan oed yn brin, dywedodd lechyd Cyhoeddus Cymru<sup>76</sup> a Chonffederasiwn GIG Cymru wrthym ei bod yn hynod o annhebygol y byddai unrhyw fangre wedi torri'r rheoliadau ar dri achlysur mewn cyfnod o dair blynedd. Felly, yn ymarferol, roedd erlyniad yn annhebygol. Awgrymodd Conffederasiwn GIG Cymru:

“... that consideration be given to a 12 month order following a single infringement or at least the powers to make an application to a magistrate to grant an RSO or RPO. We would suggest that repeated infringement should carry a longer term restriction.”<sup>77</sup>

**95.** Teimlai ASH Wales Cymru fod angen cosbau llym am beidio â chydymffurfio â'r gyfraith. Cynigiodd y dylid cyflwyno “polisi un camwedd”, lle gallai torri'r gyfraith unwaith arwain at ddiarddel manwerthwr o'r gofrestr.<sup>78</sup> Croesawodd Cyngor Sir Penfro y cynigion ond teimlai hefyd nad oeddent yn ddigonol.<sup>79</sup>

**96.** Er bod Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru yn croesawu'r cysylltiad â Gorchmynion Mangre o dan Gyfyngiad a Gorchmynion Gwerthu o dan Gyfyngiad o dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933, roeddent yn creu ei bod yn hanfodol bod yr amrediad o droseddau sy'n arwain at Orchymyn

<sup>75</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 97

<sup>76</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 04

<sup>77</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 03

<sup>78</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig PHB 29

<sup>79</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 28



Mangre o dan Gyfyngiad yn cael ei ehangu i gynnwys pob achos o dorri'r gyfraith mewn perthynas â thybaco. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cyflenwi tybaco anghyfreithlon (tybaco ffug a thybaco na thalwyd treth arno), troseddau wrth labelu tybaco, a pheidio â chydymffurfio â'r gwaharddiad ar arddangos tybaco, yn ogystal â gwerthu i bobl o dan oed.<sup>80</sup> Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cytuno.<sup>81</sup> Awgrymodd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra hefyd y dylid ehangu cwmpas Gorchmynion Mangre o dan Gyfyngiad a Gorchmynion Gwerthu o dan Gyfyngiad i gynnwys troseddau'n ymwneud â thybaco anghyfreithlon.<sup>82</sup>

## Ein barn ni

**97.** Er ein bod yn croesawu'r darpariaethau yn y Bennod hon, rhannwn bryderon tystion ynghylch cyflenwi tybaco anghyfreithlon (tybaco ffug a thybaco na thalwyd treth arno), a chredwn y dylid achub ar bob cyfle i fynd i'r afael â hyn. Nodwn fod y datganiad ar fwriad polisi'r Bil yn dweud y gallai "troseddau posibl y gellid ystyried eu cynnwys, yn amodol ar ymgynghoriad, gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â gwerthu tybaco anghyfreithlon".

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod gwaith yn cael ei wneud, a hynny fel mater o flaenoriaeth, i ychwanegu troseddau sy'n ymwneud â gwerthu tybaco anghyfreithlon at y rhestr o droseddau a all arwain at wneud Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad ar gyfer mangre manwerthu yng Nghymru.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn trafod â Llywodraeth y DU yr angen i gymryd rhagor o gamau i fynd i'r afael â masnachu tybaco anghyfreithlon, gan gynnwys cyflwyno cosbau mwy effeithiol a rhoi rhagor o bwerau i swyddogion safonau masnach.

---

<sup>80</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 07

<sup>81</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 31

<sup>82</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 30

## 07. Rhan 2: Tybaco a chynhyrchion nicotin – Pennod 4: Rhoi tybaco etc. i bersonau o dan 18 oed

**98.** Mae Adran 49 o'r Bil yn ei gwneud yn drosedd i rywun roi tybaco, papurau sigarêts neu gynhyrchion nicotin wrth ddanfôn nwyddau i berson sydd o dan 18 oed, gan wybod ei fod yn gwneud hynny, oni bai bod y person o dan 18 oed yng nghwmni rhywun sy'n 18 oed neu'n hŷn.

**99.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan:

---

“Gan gydnabod ei bod yn bosibl i unigolion o dan 18 oed gael gafael ar gynhyrchion tybaco a nicotin trwy eu prynu o bell, a'r ffaith fod y polisïau sydd wedi eu sefydlu ar hyn o bryd yn rhai gwirfoddol, mae'r Bil yn creu trosedd newydd, sef rhoi'r cynhyrchion hyn yn fwriadol i unigolyn sydd o dan yr oed cyfreithiol i dderbyn gwerthiannau yng Nghymru. Prif ddiben y drosedd yw lleihau'r risg y gallai pobl ifanc o dan 18 oed gael gafael ar gynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin sy'n rhan o'r nwyddau a ddanfônir.”<sup>83</sup>

---

**100.** Cadarnhaodd y Gweinidog wrthym mai dim ond os bydd y gyrrwr sy'n danfôn y tybaco yn rhoi hwnnw i berson 18 oed gan wybod ei fod yn gwneud hynny y bydd trosedd yn cael ei chyflawni. Dywedodd y Gweinidog:

---

“Supermarkets should already be really familiar with these kind of offences anyway and with age verification processes, because they should have similar processes in place already to deal with sales of alcohol.”<sup>84</sup>

---

**101.** Dywedodd y Gweinidog hefyd ei bod yn bwriadu rhoi canllawiau i archfarchnadoedd a manwerthwyr eraill, gan bwysleisio pwysigrwydd rhoi gwybod i yrwyr os bydd y nwyddau y maent yn eu danfôn yn cynnwys tybaco neu gynhyrchion nicotin.

**102.** Ar y cyfan, roedd pobl o blaid y bwriad hwn. Wrth i fwy o bobl siopa ar-lein, roedd yr ymatebwyr a roddodd sylwadau am yr adran hon yn credu bod angen croesawu unrhyw gamau i rwystro plant a phobl o dan 18 oed sydd yn eu harddegau rhag cael gafael ar dybaco a chynhyrchion nicotin.<sup>85</sup>

**103.** Dywedodd Fferylliaeth Gymunedol Cymru<sup>86</sup> a'r Company Chemists' Association fod therapi disodli nicotin sydd wedi'i drwyddedu'n feddygol ar gael i bobl o dan 18 oed, ac roeddent yn cwestiynu a allai'r darn hwn o'r Bil rwystro pobl ifanc rhag cael cynhyrchion i'w helpu i roi'r gorau i ysmegu.

**104.** Yn ei thystiolaeth ar 11 Ionawr 2017, dywedodd y Gweinidog:

---

“Our approach is the same as in the regulation that come under the Children and Families Act 2014 regarding the sale and proxy purchase of nicotine-inhaling products. These regulations provide an exemption for medicines to be

---

<sup>83</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 109

<sup>84</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 194

<sup>85</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 03, PHB 04, PHB 05, PHB 06

<sup>86</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 12, PHB 23

handed over to under-18s. So, there should be no issue in terms of under-18s receiving those medicines.”<sup>87</sup>

---

### Ein barn ni

**105.** Rydym yn fodlon â'r darpariaethau yn y Bennod hon. Nodwn mai'r person sy'n rhoi'r tybaco/cynnyrch nicotin sy'n gyfrifol yn y sefyllfa hon. O'r herwydd, croesawn ymrwymiad y Gweinidog i roi canllawiau i archfarchnadoedd a manwerthwyr eraill yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi gwybod i'w gyrwyr am unrhyw gynhyrchion o'r fath yn y nwyddau y byddant yn eu danfon.

---

<sup>87</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 64

## 08. Rhan 3: Triniaethau arbennig

### Ystyr triniaeth arbennig a dehongli'r Rhan hon

**106.** Mae Rhan 3 o'r Bil yn darparu ar gyfer creu system drwyddedu orfodol ar gyfer ymarferwyr a busnesau sy'n rhoi triniaethau arbennig penodol. At ddibenion y Bil, diffinnir triniaethau arbennig fel aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio.

**107.** O dan y Bil, cadarnhaodd un o swyddogion y Gweinidog nad oes hawl awtomatig i gael trwydded, hyd yn oed ymhlith y rheini sydd eisoes â thrwydded neu'r rheini sydd wedi'u cofrestru ag awdurdod lleol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.<sup>88</sup>

**108.** Mae Adran 90 o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ychwanegu at y rhestr o driniaethau arbennig, neu i dynnu triniaethau o'r rhestr, drwy reoliadau. Caiff hyn ei wneud ar ôl ymgynghori, gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol.

**109.** Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mai ei bwriad yn y rhan hon o'r Bil yw:

---

“sichrau bod ymarferwyr unigol yn cadw at safonau priodol (yn ymwneud â hylendid, cadw cofnodion a dilysu oed, er enghraifft), yn ogystal â sichrau nad yw triniaethau arbennig ond yn cael eu cyflawni mewn amgylchedd addas. Y diben cyffredinol yw sichrau nad yw'r triniaethau arbennig hyn, pan fyddant yn cael eu darparu yng Nghymru, yn cael eu cyflawni mewn modd a allai achosi niwed i iechyd.”<sup>89</sup>

---

**110.** Cadarnhaodd y Gweinidog fod y pedair triniaeth sy'n cael eu cyflwyno yn y Bil wedi'u dewis gan eu bod yn gallu niweidio iechyd pobl oni bai bod y triniaethau hynny'n cael eu rhoi mewn modd sy'n sicrhau glanweithdra, a hefyd gan fod awdurdodau lleol yn eu rheoleiddio ar hyn o bryd:

---

“These are things that local authorities are familiar with, so they'll be able to hit the ground running in terms of this new rule.”<sup>90</sup>

---

**111.** Roedd yr ymatebwyr a roddodd sylwadau am y Rhan hon yn croesawu cyflwyno cynllun trwyddedu cenedlaethol gorfodol, yn ogystal â rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o driniaethau perthnasol. Fodd bynnag, roedd nifer o ymatebwyr yn credu y dylid cynnwys triniaethau eraill ar wyneb y Bil.<sup>91</sup> Roedd y rhain yn cynnwys:

- addasu'r corff, gan gynnwys ysgrifffio, brandio a mewnbaniadau o dan y croen;
- chwistrellu hylif i mewn i'r corff, fel Botox a llenwi'r croen;
- gemwaith ar y dannedd;
- pilio cemegol/pilio'r croen yn gosmetig;
- triniaeth laser, fel a ddefnyddir i gael gwared ar datŵs a blew;
- fforchio'r dafod (holti'r dafod).

---

<sup>88</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 85

<sup>89</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 125

<sup>90</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 202

<sup>91</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig PHB 03, PHB 05, PHB 05, PHB 08, PHB 10, PHB 15, PHB 25, PHB 37

**112.** At ddibenion y Rhan hon, diffinnir tatŵio fel “mewnosod mewn priciau a wnaed yng nghroen, neu ym mhilen fwcaidd, unigolyn unrhyw ddeunydd sy’n lliwio a ddyluniwyd i adael marc lled-barhaol neu barhaol (gan gynnwys microbigmentiad)”.<sup>92</sup> Roedd gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd bryderon am y diffiniad hwn, gan nad yw o bosibl yn cynnwys y broses a elwir yn “tashing”, sef defnyddio llwch person neu anifail yn y broses o roi tatŵ, gan ymgorffori’r llwch i bob pwrpas yn y tatŵ. Meddai:

“We know that ‘tashing’ is carried out widely in Wales and whilst we have reservations about the practice from a public health standpoint (ashes may not be sterile, may be contaminated with heavy metals, etc) it is our view that it should either be specifically included and controlled within the legislation or specifically precluded by it.”<sup>93</sup>

**113.** Dywedodd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd hefyd nad deunyddiau sy’n lliwio, fel y diffinnir hwy, yw rhai deunyddiau a ddefnyddir wrth datŵio, gan nad ydynt yn rhoi lliw ar y croen. Yn hytrach, mae rhai deunyddiau o’r fath yn fflworoleuo pan roddir golau UV arnynt. Meddai:

“The public health risk from such materials is the same as that posed by ink, we consider that the definition should include materials that are not colouring materials *per se*, but which cause a change in the texture of the skin or in the way in which it reacts to light, extremes of temperature, etc.”<sup>94</sup>

**114.** Awgrymodd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol y gallai fod yn symlach defnyddio diffiniad sy’n cynnwys unrhyw driniaeth sy’n golygu tyllu’r croen neu’r bilen fwcaidd, yn hytrach nag enwi triniaethau penodol, gan mai dyma’r rhai o safbwynt meddygol sy’n rhoi’r risgiau mwyaf i iechyd hirdymor pobl, fel hepatitis a HIV.

**115.** Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog fod y Bil yn cynnwys darpariaeth i ychwanegu at y rhestr unrhyw driniaeth y gellir ei defnyddio at ddibenion esthetig neu therapiwtig, a bod rhoi’r driniaeth at y dibenion hynny yn gallu achosi niwed i iechyd pobl.<sup>95</sup>

**116.** Aeth yn ei blaen i ddweud:

“I think the Bill is better futureproofed in terms of allowing us to add further procedures to it in future by not being restricted just to things that pierce the skin. For example, artificial UV tanning, chemical peels, colonic irrigation – all of these things might come under the therapeutic or aesthetic definition and also are capable of causing harm to the individual, but they don’t pierce the skin. So, I think that the Bill as drafted, will give us greater scope of respond to changing fashions, changing trend and, as you suggest, procedures perhaps we can’t even imagine now that might become popular in just a few years’ time as well.”<sup>96</sup>

<sup>92</sup> Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), fel y’i cyflwynwyd, Adran 91(1)

<sup>93</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 05

<sup>94</sup> *ibid*

<sup>95</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 84

<sup>96</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 84

## Rhoi triniaeth arbennig a thrwyddedu

**117.** Er mwyn rhoi unrhyw un o'r triniaethau a ddiffinnir yn y Bil, y bwriad yw bod yn rhaid i unigolyn gael trwydded a rhaid cymeradwyo'r fangre neu'r cerbyd lle mae'r unigolyn hwnnw'n gweithio. Bydd trwyddedau a mangreoedd a cherbydau a gymeradwywyd yn ddilys am gyfnod o dair blynedd. Bydd trwyddedau a chymeradwyaeth dros dro ar gael hefyd ar gyfer arddangosfeydd a digwyddiadau.<sup>97</sup>

**118.** Ar ôl sefydlu'r system drwyddedu, bydd yn drosedd i ymarferydd roi unrhyw driniaethau arbennig heb drwydded neu eu rhoi o fangreoedd neu gerbydau sydd heb eu cymeradwyo.<sup>98</sup>

**119.** Drwy reoliadau, rhaid i Weinidogion Cymru bennu'r meini prawf ar gyfer trwyddedu a'r amodau trwyddedu mandadol, a hynny fel bod safonau ymarfer a'r dulliau o orfodi mewn perthynas â thriniaethau arbennig yn gyson drwy Gymru. Bydd y meini prawf ar gyfer trwyddedu yn nodi, ymhlith pethau eraill, a yw unigolion yn gymwys i gael trwydded ar sail eu gallu i ddangos gwybodaeth am reoli haint, cymorth cyntaf a'u rhwymedigaethau cyfreithiol – er enghraifft i beidio â rhoi tatŵ i unigolyn sydd o dan 18 oed. Gall y meini prawf trwyddedu hefyd roi sylw i bethau eraill fel pa mor gymwys yw rhywun wrth roi triniaeth arbennig. Gall hyn gynnwys yr hyfforddiant perthnasol y mae'r ymgeisydd wedi'i gael, neu ei wybodaeth am y driniaeth arbennig.

**120.** O ran pa mor gymwys yw ymarferydd, dywedodd y Gweinidog wrthym:

---

“We've looked at the evidence from the Newport case, and that clearly shows that just being registered doesn't show you are competent to carry out the procedure. So we want local authorities to test the competent of all those individuals currently registered.”<sup>99</sup>

---

**121.** Bydd yr amodau trwyddedu mandadol yn pennu'r gofynion y mae'n rhaid i ddeilydd trwydded eu bodloni er mwyn cadw'r drwydded. Bydd y rhain yn cynnwys amodau ynghylch gwirio oedran, arferion rheoli haint, safonau hylendid, cymorth cyntaf, ymgynghori cyn ac ar ôl y driniaeth, a chadw cofnodion. Bydd yr amodau hefyd yn gwahardd deilydd trwydded rhag rhoi triniaeth arbennig i unigolyn sydd, neu sy'n ymddangos ei fod, yn feddw neu o dan ddylanwad alcohol, cyffuriau neu sylwedd arall.<sup>100</sup>

**122.** Mae Adran 63 o'r Bil yn rhoi disgrisiwn i awdurdod lleol ganiatáu neu wrthod cais am drwydded triniaethau arbennig os bydd gan yr ymgeisydd euogfarn am drosedd berthnasol ac os nad yw'r drosedd honno wedi'i disbyddu at ddibenion Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Mae Adran 63(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiwygio'r rhestr o droseddau perthnasol yn Adran 63(3) drwy ychwanegu, amrywio neu gael gwared ar ddisgrifiad o drosedd.

**123.** Roedd gan nifer o ymatebwyr bryderon am y troseddau a restrir yn Adran 63(3). Achos pryder penodol oedd na fyddai person a chanddo euogfarn am drosedd rywiol wedi'i atal rhag cael trwydded ymarferydd ac y byddai rhwydd hynt iddo roi tyllau mewn rhannau personol o'r corff.<sup>101</sup> Dyma farn Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru a Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru:

<sup>97</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 124

<sup>98</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 128

<sup>99</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 86

<sup>100</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 129

<sup>101</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 05

---

“(…) a ‘fit and proper person criteria’ is a necessary safeguard. We feel that the list of ‘relevant offences’ is too narrow and we are surprised that the list does not include, for example, sexual offences or assault.”<sup>102</sup>

---

**124.** Awgrymodd Conffederasiwn GIG Cymru y dylai'r Bil ei gwneud yn ofynnol i wirio'r rheini sy'n cofrestru i roi triniaethau arbennig er mwyn sicrhau nad oes ganddynt gefndir troseddol a fyddai'n golygu nad ydynt yn addas i roi'r triniaethau hynny (er enghraifft, gwiriadau Amddiffyn Plant a'r Swyddfa Cofnodion Troseddol).<sup>103</sup>

**125.** Roedd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd yn cytuno â'r awgrym hwn.<sup>104</sup>

**126.** Rhoesom sylw i'r pryder hwn yn y cyfarfod â'r Gweinidog ar 11 Ionawr 2017. Wrth ymateb, dywedodd cynghorwr cyfreithiol y Gweinidog:

---

“We're satisfied that section 63 offers adequate protection to those undergoing special procedures, but we are aware that it's an area of concern for the committee. It's important to remember that this is a public health Bill, and the purpose of Part 3 is to minimise the chance of injury or illness caused by the performance of a special procedure in an unhygienic manner.”<sup>105</sup>

“It's not a safeguarding Bill as such. So, the offences that are currently listed on the face of the Bill are those that we are satisfied are proportionate and can lawfully and legitimately be taken into account when a licensing committee will be determining whether or not to grant a special procedure licence.”<sup>106</sup>

“Any potential changes would need to be considered carefully in terms of human rights, EU law and policy implications because, as I say, we do have to be very careful that we are balancing the rights of individuals to practice a profession with the need to ensure that the procedures are performed in a safe and hygienic manner. If we go too far in taking into account offences that don't provide for procedures to be carried out in a safe manner, we could tip the balance too far and we could be subject to legal challenge.”<sup>107</sup>

---

**127.** Fodd bynnag, dywedodd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd wrthym:

---

“Intimate piercings by their nature are very invasive and we know that children under 16—16-year-olds, certainly, but Operation Seren tells us that children under 16 were having intimate piercings. If you go to a doctor for an intimate examination, you're entitled to have a chaperone there, and the doctor, or whoever is involved, will have had a criminal record check at some point. We have practitioners who have had no checks at all around sexual offences that they may have carried out, or assaults that they may have carried out. But people are putting themselves, and children are putting themselves, in an extremely vulnerable position. Whilst I accept that the offences that are in the

---

<sup>102</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 07 a PHB 20

<sup>103</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 03

<sup>104</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 37

<sup>105</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 92

<sup>106</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 96

<sup>107</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 98



regulations are important, they are about breaches of technical legislation, if you like—the need to register and so on. We need to make sure that the people who are carrying out these procedures are actually fit to be carrying them out, and don't pose a risk to individuals in doing so. So, we think that we should be having a data-barring check to ensure that people who are doing intimate piercing have been checked to make sure they have no relevant convictions of the type that I've alluded to.”<sup>108</sup>

**128.** Dywedodd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd hefyd:

“Safeguarding is very much part of public health protection. We don't just say that intimate piercing is about the infections you might get from it. We talk about the decision to have an intimate piercing made by someone who is competent to make that decision, and who can ask themselves the right sort of questions and can be relied upon to deliver the right sort of aftercare when they've had that sort of piercing, and that it should be done properly, by someone who is capable of doing it properly. To my mind, if you are talking about someone who has a conviction of the sort that we've talked about—assault or a sexual offence—that sort of person may not be doing it for decorative, aesthetic reasons. They may be doing it for all sorts of other less, what can I say, desirable reasons? You know, for reasons that are nothing to do with what we're here for. Therefore, I think that it is very much a public health issue that those sorts of individuals with those sorts of convictions should not be involved in this sort of procedure.”<sup>109</sup>

**129.** Dywedodd Dr Olwen Williams o Goleg Brenhinol y Meddygon:

“I was concerned about that because there have to be some safeguards, even more so with what we've been hearing with people in a position of power and authority in all sorts of areas. I think they need to be realistic. We're very aware that, in Wales, we do have issues around coercion and exploitation and where this leads to. I think, possibly, we could be short-sighted in not taking safeguarding on board here.”<sup>110</sup>

## Troseddau a gorfodi

**130.** Mae Adran 79 yn nodi'r troseddau sy'n berthnasol i'r Rhan hon. Ymhlith pethau eraill, caiff trosedd ei chyflawni os bydd rhywun yn methu â chydymffurfio ag amodau trwyddedu neu gymeradwyaeth, neu'n methu â chydymffurfio â chamau gorfodi awdurdod lleol fel hysbysiad stop neu hysbysiad camau adfer, heb fod achos rhesymol dros hynny. Mae'n drosedd hefyd gwneud datganiad anwir neu gamarweiniol (gan gynnwys os bydd y person yn gwybod ei fod yn anwir neu'n gamarweiniol neu'n ddi-hid o hynny) wrth wneud cais am drwydded neu gymeradwyo mangre neu gerbyd.

<sup>108</sup> Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 218

<sup>109</sup> Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 222

<sup>110</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 285



**131.** O gael euogfarn, gall rhywun sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon gael dirwy, heb fod cyfyngiad ar ei maint.<sup>111</sup>

**132.** Mae'r Bil yn darparu mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am orfodi'r gofynion trwyddedu, ac am gadw cofrestr o'r trwyddedau ar gyfer triniaethau arbennig a roddir ganddynt sydd heb ddod i ben, yn ogystal â chofrestr o'r mangreodd/cerbydau y maent wedi'u cymeradwyo. Rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod y wybodaeth ar y gofrestr ar gael i'r cyhoedd ei gweld.<sup>112</sup>

**133.** Mae Adran 73 yn rhoi'r gallu i awdurdod lleol godi ffi ar ddeilydd trwydded triniaethau arbennig neu gymeradwyaeth mangre neu gerbyd. Gellir codi'r ffi am gyfnod penodol neu fel arall am y cyfnod y bydd y drwydded/cymeradwyaeth yn berthnasol. Gall rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut y mae awdurdod lleol i benderfynu ar faint o ffi a godir, gan ystyried y costau y bydd yr awdurdod yn gorfod eu talu neu'n disgwyl gorfod eu talu.<sup>113</sup>

**134.** Dywedodd y Gweinidog wrthym:

“In terms of enforcing (...) the (...) provisions in the Bill (...), we're really keen to make sure that we're only asking local authorities to do what they're able to do within the resources that they have. Parts of the Bill will allow local authorities to have an income stream, in terms of licensing and so on, where they're able to charge for the application in order to cover those costs and also to charge people who are licensed as well, and that will give a further income stream to help them enforce as well. So we're really keen not to create a Bill that is overly burdensome on local authorities and would be a barrier to effective enforcement of it.”<sup>114</sup>

**135.** Ar y cyfan, roedd pobl o blaid y system drwyddedu arfaethedig gan y byddai'n galluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau i amddiffyn y cyhoedd yn fwy effeithiol.<sup>115</sup> Roedd nifer o ymatebwyr o blaid y ddarpariaeth a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i adennill eu costau. Dywedodd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru a Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru y byddai sefydlu system ffioedd i alluogi awdurdodau lleol i adennill y costau yn sicrhau bod arian ar gael i roi'r system ar waith, a bod hyn yn gwbl hanfodol yn yr hinsawdd economaidd presennol.<sup>116</sup>

**136.** Dywedodd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd:

“We've done a lot of work with the chief environmental health adviser looking at the structure of the Bill. From what we can see, the licensing conditions that are in this are entirely consistent with the Hemming judgement, which means that local authorities will be able to get enough resource through the process of licensing to allow them to do enforcement, which also means I think that this Bill will not be subject to challenge around the issue of resources and that's

<sup>111</sup> Memorandwm Esboniadol, Atodiad 1, paragraffau 158-159

<sup>112</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 131

<sup>113</sup> Memorandwm Esboniadol, Atodiad 1, paragraff 141

<sup>114</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 158

<sup>115</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 04

<sup>116</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 07, PHB 20

extremely important. So, we are content that as it stands this Bill will generate enough income for local authorities to deliver the functions that are in it.”<sup>117</sup>

**137.** Dywedodd cynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

“In terms of the general nature of the way that the Bill has been framed, the licensing elements all come with a cost-recovery fee-setting basis, which should, if properly worked through, enable local authorities to recover the costs of that licensing process and also of any enforcement of the new proposed systems as well. So, I think as long as the framing of the legislation is designed to fully cover the costs of that administrative and enforcement work within the function of that local government structure, we’d be quite happy with that.”<sup>118</sup>

### Esemptiad o'r gofyniad i gael trwydded

**138.** Mae Adran 57 yn nodi'r amgylchiadau pan fydd unigolyn wedi'i esemptio o'r gofyniad i gael trwydded triniaethau arbennig er mwyn rhoi'r driniaeth honno. Mae Adran 57(2) yn darparu y bydd unigolyn sy'n aelod o broffesiwn a nodir ym mharagraffau (a) i (ga) o adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 wedi'i esemptio, oni bai bod rheoliadau yn dynodi bod angen trwydded mewn perthynas â thriniaeth arbennig benodol. Mae'r proffesiynau hyn yn cynnwys meddygon, deintyddion a nyrsys. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd bŵer i esemptio aelodau o broffesiynau eraill penodedig drwy reoliadau sydd i'w gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol.<sup>119</sup>

**139.** Roedd rhai tystion a roddodd sylwadau am yr adran hon yn cwestiynu a fyddai'r holl broffesiynau sydd wedi'u cynnwys yn y diffiniad hwn yn ddigon cymwys yn sgil eu cofrestrriad proffesiynol i roi'r triniaethau hyn.<sup>120</sup>

**140.** Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod angen safonau cyson ar gyfer pawb, a'r rheini'n gymesur ac yn briodol, heb i gyrrff penodol o anghenraid osod y rheini.<sup>121</sup>

**141.** Dywedodd Coleg Brenhinol y Meddygon wrthym:

“I would never pierce or tattoo anyone. I wouldn't do that to their genitals even though I've been a practitioner in that field for nearly 30 years now. So, the fact that my title is 'doctor' doesn't mean that I'm competent.”<sup>122</sup>

**142.** Roedd y Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi hefyd yn cwestiynu pam fod y Bil yn cyflwyno dull gwahanol o reoleiddio'r proffesiynau sy'n cael eu rheoleiddio gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, a pham nad ellid trin y rheini yn union yr un fath â'r proffesiynau eraill sy'n cael eu rheoleiddio gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol, er enghraifft. <sup>123</sup>

**143.** Dywedodd y Gweinidog wrthym:

<sup>117</sup> Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 170

<sup>118</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 17

<sup>119</sup> Memorandwm Esboniadol, Atodiad 1, paragraffau 97-98

<sup>120</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 04

<sup>121</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2016, paragraff 89

<sup>122</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 263

<sup>123</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 40

---

“The Bill provides Ministers with regulation-making powers to enable individuals who are exempt on the face of the Bill to be brought back within the licensing regime as. And it is intended that we will have some detailed consultation with the regulating bodies to determine whether each of the listed special procedures is within the scope of the professional competence of their members as well.”<sup>124</sup>

---

## Mangreoedd a cherbydau a gymeradwywyd

**144.** Mae Adran 67 yn galluogi awdurdod lleol i roi tystysgrif i gymeradwyo mangre neu gerbyd fel y gellir rhoi triniaeth arbennig (neu driniaethau arbennig) yn y fangre neu'r cerbyd dan sylw. Bydd cymeradwyaeth ar gyfer mangre neu gerbyd yn para am naill ai ddim mwy na saith niwrnod (os yw'n ymwneud â thriniaethau a roddir ar sail dros dro (h.y. wrth roi adloniant, neu mewn arddangosfa neu ddigwyddiad arall)), neu dair blynedd. Rhaid nodi ar y dystysgrif sy'n rhoi'r gymeradwyaeth am ba hyd y mae'n berthnasol. Rhaid i'r fangre fod yn ardal yr awdurdod lleol a rhaid ystyried bod y cerbyd yn cael ei yrru, yn cael ei ddefnyddio neu'n cael ei gadw yn ardal yr awdurdod lleol er mwyn i'r awdurdod lleol ei gymeradwyo.<sup>125</sup>

**145.** Yn gyffredinol, roedd pobl o blaid yr adran hon, er i rai ymatebwyr awgrymu bod angen system arolygu barhaol.<sup>126</sup>

## Ein barn ni

**146.** Rydym yn fodlon â'r rhesymeg dros gynnwys y pedair triniaeth arbennig ar wyneb y Bil, sef aciwbigo; tyllu'r corff; electrolysis; a thatwio. Fodd bynnag, yn sgil y dystiolaeth a gawsom am y galw cynyddol am dynnu tatws drwy driniaeth laser, byddem yn dymuno gweld y defnydd o laser/golau pwls dwys (IPL) ar gyfer dibenion esthetig fel cael gwared ar datw neu flew, a hynny heb fod yn llawdriniaethol ei natur, yn cael ei ychwanegu at y triniaethau a enwir ar wyneb y Bil. Byddem hefyd yn gofyn i'r Gweinidog edrych ar y diffiniad o "datwio" er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys "tashing" neu driniaethau tebyg nad ydynt o anghenraid yn cynnwys defnyddio deunyddiau sy'n lliwio.

**147.** Rydym yn pryderu am y dystiolaeth a gawsom nad yw rhai o'r technegau mwy eithafol i addasu'r corff (er enghraifft, holli'r dafod) wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil. Nodwn fod y Gweinidog wedi sefydlu gweithgor i ystyried triniaethau eraill posibl i'w hychwanegu at y rhestr o driniaethau. Credwn y dylai'r Gweinidog wneud gwaith ar frys i ddeall i ba raddau y mae triniaethau i addasu'r corff yn cael eu rhoi yng Nghymru a'r risg y mae hyn yn ei hachosi i iechyd y cyhoedd, gyda golwg ar ychwanegu'r rhain at y ddeddfwriaeth cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Credwn fod yr angen i ddiogelu iechyd y cyhoedd drwy sicrhau bod ymarferwyr yn rhoi triniaethau mewn ffordd fedrus a diogel yn drech nag unrhyw bryderon y gallai cynnwys y mathau hyn o driniaethau mewn system drwyddedu o bosibl eu gwneud yn fwy poblogaidd.

**148.** Yn sgil y dystiolaeth a gawsom gan ymarferwyr meddygol ynghylch pa mor gymwys yw pobl i roi rhai triniaethau arbennig penodol, credwn na ddylai neb fod wedi'u hesemptio'n awtomatig rhag y gofyniad i gael trwydded. Nid ydym yn fodlon bod digon o dystiolaeth i ddangos y byddai'r holl weithwyr proffesiynol sy'n bodloni'r meini prawf esemptio presennol ar wyneb y Bil yn gymwys i roi'r triniaethau arbennig a nodir ar wyneb y Bil. Ni ddylai fod esemptiad diofyn ar wyneb y Bil ar gyfer unrhyw broffesiwn gofal iechyd. Dim ond drwy reoliadau, ac ar ôl ymgynghori â'r cyrff proffesiynol

---

<sup>124</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 90

<sup>125</sup> Memorandwm Esboniadol, Atodiad 1, paragraff 124

<sup>126</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 05

perthnasol, y dylai unrhyw broffesiwn gofal iechyd, gan gynnwys meddygon, deintyddion a nyrsys, fod wedi'u hesemptio o'r gofyniad i gael trwydded.

**149.** Rydym yn hynod o bryderus nad yw'r troseddau a restrir yn Adran 63(3) yn cynnwys troseddau rhyw, sy'n golygu nad oes dim o anghenraid i rwystro rhywun sydd ar y gofrestr troseddwr rhyw, er enghraifft, rhag cael trwydded i roi triniaethau arbennig. Yn ein barn ni, mae hwn yn bryder sylweddol a pherthnasol tu hwnt, ac ystyried bod modd rhoi unrhyw un o'r triniaethau a enwir yn y Bil ar ran bersonol o'r corff.

**150.** Nid ydym yn derbyn dadl cynghorwr cyfreithiol y Gweinidog a ddywedodd mai "Bil iechyd y cyhoedd" yw hwn yn hytrach na Bil sy'n "amddiffyn" pobl.<sup>127</sup> Yn wir, mae'r Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant sy'n cyd-fynd â'r Bil yn datgan: "In addition to the risks to health, the intimate piercing of children and young people may also be considered a child protection issue." Dywed y Memorandwm Esboniadol hefyd: "Prif nod y darpariaethau hyn yn y Bil yw amddiffyn plant a phobl ifanc rhag y niwed posibl i iechyd y gellir eu hachosi trwy gael twll mewn rhan bersonol o'r corff, ac osgoi amgylchiadau pan roddir plant a phobl ifanc mewn sefyllfa lle y gallent fod yn agored i niwed".<sup>128</sup> Rydym felly yn credu'n gryf bod yn rhaid diwygio'r rhestr o droseddau er mwyn i'r rheini gynnwys "troseddau rhyw".

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymhell bod y rhestr o driniaethau arbennig a enwir ar wyneb y Bil yn cael ei diwygio er mwyn cynnwys y defnydd o laser/golau pwls dwys (IPL) a ddefnyddir at ddibenion esthetig nad ydynt yn llawdriniaethol eu natur, fel cael gwared ar datws neu flew.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn ailedrych ar y diffiniad o "datwio" er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys "tashing" neu driniaethau tebyg nad ydynt o anghenraid yn golygu defnyddio deunyddiau sy'n lliwio.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn gwneud gwaith ar frys i ddeall i ba raddau y mae triniaethau i addasu'r corff yn cael eu rhoi yng Nghymru ac asesu'r risg y mae hyn yn ei hachosi i iechyd y cyhoedd, gyda'r nod o ychwanegu'r rhain at y ddeddfwriaeth cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymhell y dylid diwygio'r Bil fel nad oes darpariaeth ar wyneb y Bil sy'n rhoi esemptiad diodyn i unrhyw broffesiwn gofal iechyd. Dim ond drwy reoliadau, ac ar ôl ymgynghori â'r cyrff proffesiynol perthnasol, y dylai unrhyw broffesiwn gofal iechyd, gan gynnwys meddygon, deintyddion a nyrsys, fod wedi'u hesemptio o'r gofyniad i gael trwydded.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymhell y dylid diwygio'r troseddau a restrir yn Adran 63(3) o'r Bil er mwyn cynnwys "troseddau rhyw".

---

<sup>127</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 92

<sup>128</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 152

## 09. Rhan 4: Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff

### Beth yw ystyr rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff?

**151.** Mae Rhan 4 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff. At ddibenion y Rhan hon, diffinnir rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff fel tyllu'r corff yn unrhyw un o'r manau hyn: yr anws; y fron (gan gynnwys y deth a'r areola); y ffolen; rhyd y pen ôl; y pidyn (gan gynnwys y blaengroen); y perinëwm; y mons pubis; y ceillgwd; y tafod; y fwifa.

### Troseddau a gorfodi

**152.** Ar hyn o bryd yng Nghymru, nid oes cyfyngiad oedran ar gyfer tyllu'r corff.<sup>129</sup> Mae adran 92 yn ei gwneud yn drosedd i rywun roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn yng Nghymru. Yn y Rhan hon, diffinnir plentyn fel unrhyw berson sydd o dan 16 oed. Mae'n drosedd hefyd gwneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn yng Nghymru. Gall person sy'n euog o drosedd ar euogfarn ddiannod gael dirwy, heb fod cyfyngiad ar ei maint.<sup>130</sup>

**153.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod darpariaethau'r Bil, yn sgil gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff person o dan 16 oed:

“... yn cyd-fynd ag oedran cydsynio ar gyfer gweithgarwch rhywiol. Nid yw'r Bil yn atal unigolion 16 ac 17 mlwydd oed rhag cael tyllau mewn rhannau personol o'r corff, gan yr ystyrid y byddai hyn yn anghyson â'r mathau o benderfyniadau a wneir yn fwy cyffredinol gan bobl o'r oedrannau hyn, megis cael ymuno â'r fyddin neu ddysgu gyrru.”<sup>131</sup>

**154.** Er bod yr ymatebwyr o blaid cyflwyno cyfyngiad oedran ar gyfer rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, teimlai llawer y byddai 18 yn oedran mwy priodol.<sup>132</sup>

**155.** Cyfeiriodd llawer at yr angen i amddiffyn pobl ifanc rhag cael niwed a rhag bod mewn sefyllfa lle gallent fod yn agored i niwed. Dywedodd Coleg Brenhinol y Meddygon fod plentyn, yn ôl y gyfraith, yn rhywun o dan 18 oed, ac felly bod y diffiniad yn y Bil o blentyn yn anghyson â chyfraith amddiffyn plant.<sup>133</sup>

**156.** Teimlai Sefydliad Siartredig lechyd yr Amgylchedd y dylai'r oedran ar gyfer rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff fod yr un fath â'r oedran ar gyfer tatwio. Nid oedd yn credu bod 16 yn oedran addas am y rhesymau canlynol:

- “the decision to have an intimate body piercing should be made by a mature individual, we believe that 16 years of age is not sufficiently mature.
- intimate body piercings require a higher standard of aftercare than tattoos, as they are potentially more susceptible to infection. This level of aftercare requires a mature approach to which a 16 year old may not be capable of fully committing.
- whilst the jewellery inserted into an intimate body piercing may be removed any scarring or damage inflicted by the procedure will be permanent. This is particularly important when

<sup>129</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 145

<sup>130</sup> Memorandwm Esboniadol, Atodiad 1, paragraff 180

<sup>131</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 154

<sup>132</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 07,

<sup>133</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 16, PHB 20, PHB 28, PHB 31

the skin the subject of the piercing is still growing and its function may be compromised by scarring or thickening. At 16 years an individual is still growing and therefore the risk of damage to skin is greater.”<sup>134</sup>

**157.** Dywedodd un o swyddogion y Gweinidog wrthym mai un o'r rhesymau dros beidio â chyflwyno'r un oedran ar gyfer rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff ag ar gyfer tatwio oedd y ffaith bod tatw yn barhaol, o'i gymharu â thwll, sy'n rhywbeth y gellir cael gwared arno. Meddai:

“In relation to young people having a piercing that they later regret, I think the good thing about piercings – if there is a good thing – is that they can be removed, and generally, they will heal. They might leave a small scar but they will generally heal quite effectively.”<sup>135</sup>

**158.** Roedd Dr Olwen Williams o Goleg Brenhinol y Meddygon yn anghytuno â'r datganiad hwn, fodd bynnag:

“... piercing isn't necessarily reversible, in the sense that it does leave a hole, and I have seen some significant damage being done as a result of the piercing and the connotations from the anatomy being changed.”

**159.** Cyfeiriodd hefyd at natur rywiol rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff a chwestiynodd beth a fyddai'n cymell rhywun 16 neu 17 oed i fod eisiau cael twll o'r fath:

“I am concerned that going for a piercing of the genitals specifically at that age suggests other things that are going on in life.”<sup>136</sup>

**160.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan:

“Mae materion yn codi hefyd ynghylch rhywioli pobl ifanc: gall tyllau yn y tafod, er enghraifft, fod yn gysylltiedig â gweithgarwch rhywiol. Ar ben hynny, gellid ystyried hefyd bod rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn a pherson ifanc yn fater amddiffyn plant. Trwy gael y driniaeth, gallai pobl ifanc fod yn agored i niwed trwy fod mewn sefyllfa lle y mae eu rhannau 'personol' yn agored i oedolyn ac yn cael eu cyffwrdd a'u tyllu gan oedolyn nad oeddent o bosibl yn ei adnabod cyn hynny.

Ystyrir felly bod angen cryfhau'r fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud â rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, a hynny yn achos plant a phobl ifanc. Ystyrir bod angen gwneud hyn er mwyn eu hamddiffyn rhag niweidiau posibl i iechyd, yn ogystal â bygythiadau i'w lles.”<sup>137</sup>

**161.** Esboniodd y Gweinidog ei rhesymeg dros gynnig 16 fel yr oedran:

“We have put 16 as the age for intimate piercing because we feel that it strikes a balance, really, between the human rights of children and young people to decide what to do with their own bodies, but also the safeguarding of those

<sup>134</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 05

<sup>135</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 75

<sup>136</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 245

<sup>137</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraffau 143-144



children and young people as well. We feel that it fits as well with the kind of other decisions that people are able to make at the age of 16.”<sup>138</sup>

**162.** Ar ôl y sesiwn dystiolaeth ar 11 Ionawr 2016, cyflwynodd Coleg Brenhinol y Meddygon ragor o dystiolaeth ysgrifenedig ynghylch rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff. Dyma a ddywedodd:

- ymhlith y rheini sydd o dan 18 oed, ystyrir bod rhoi twll yn yr organau cenhedlu yn achos math 4 o anffurfio organau cenhedlu benywod ac felly yn **ddigwyddiad y dylid rhoi gwybod amdano'n droseddol**. Daeth y gofyniad hwn i fod ddiwedd 2015.
- mewn sawl gwlad ddatblygedig, gan gynnwys Awstralia, Seland Newydd a'r rhan fwyaf o daleithiau'r Unol Daleithiau, ystyrir rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff plant (y rheini sydd o dan 18 oed) yn drosedd.
- bydd arferion da yn y diwydiant yn golygu na fydd pobl yn rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff pobl sydd o dan 18 oed. Mae rhai hyd yn oed yn cyfyngu'r driniaeth i rai sy'n 21 oed a hŷn, gan eu bod yn credu ei fod yn fater o amddiffyn pobl.<sup>139</sup>

**163.** Cadarnhaodd cynghorwr cyfreithiol y Gweinidog na fyddai'r Bil yn effeithio ar allu ymarferydd i wrthod rhoi twll i rywun o dan 18 oed.

**164.** Ar 31 Ionawr 2017, **ysgrifennodd y Gweinidog atom yn rhoi gwybod**, yn sgil y dystiolaeth a gawsom, ei bod wedi gofyn i'w swyddogion edrych ar y dystiolaeth eto. Yn sgil y gwaith cymhleth a manwl y byddai hyn yn ei olygu, disgwyliai'r Gweinidog y byddai angen nifer o wythnosau i gwblhau'r gwaith hwn. Bydd y Gweinidog felly yn amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal dadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Croesawn ymrwymiad y Gweinidog i ailedrych ar y dystiolaeth.

## Ein barn ni

**165.** Rydym yn gwbl argyhoeddedig mai 18 ac nid 16 ddylai'r oedran cydsynio fod ar gyfer rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff. Rydym wedi gwrandao ar resymeg y Gweinidog dros ddewis 16 a'r angen i gydnabod hawl pobl ifanc i benderfynu beth i'w wneud â'u cyrff eu hunain, yn ogystal ag ar y dystiolaeth gan weithwyr iechedd proffesiynol a gweithwyr iechedd yr amgylchedd am y niwed sylweddol y gall rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff ei wneud i gorff sy'n dal i ddatblygu. Rydym yn cydnabod hefyd mai 16 yw'r oedran cydsynio at ddibenion meddygol. Fodd bynnag, credwn fod hynny'n fater gwahanol iawn ac ystyried y bydd ymarferydd meddygol cymwysedig yn sicrhau bod gan y person ifanc yr holl ffeithiau annibynnol cyn cydsynio. Yn ogystal â'r goblygiadau meddygol sydd ynghlwm wrth dyllu rhan bersonol o'r corff, mae gennym bryderon mawr am ba mor agored i niwed y gall rhai pobl 16 ac 17 oed fod, ac am yr hyn a all fod yn digwydd ym mywydau pobl ifanc i'w cymell i fod eisiau twll mewn rhan bersonol o'r corff pan fyddant yn 16 oed. Rydym wedi clywed bod rhoi twll yn yr organau cenhedlu fel arfer yn cael ei wneud er mwyn pleser rhywiol ac rydym yn pryderu'n arw am unrhyw gysylltiad posibl â chamfanteisio yn rhywiol ar blant.

**166.** Mae'r **Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant** yn datgan: “By undergoing the procedure, young people may be placed in a vulnerable position by being in situations in which their ‘intimate’ areas are exposed to, touched and pierced by an adult who may be previously unknown to them.” Credwn felly fod hwn yn fater o bwys yn y maes amddiffyn plant.

<sup>138</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 216

<sup>139</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 16a



**167.** Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hefyd dangos bod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd yn 2014 wedi gofyn cwestiwn am yr isafswm oedran ar gyfer caniatáu i berson ifanc gael twll cosmetig mewn rhan bersonol o'r corff. O'r rheini a ymatebodd, awgrymodd 140 mai 18 ddylai'r oedran fod (61%), ac awgrymodd 47 mai 16 ddylai'r oedran fod (21%).

**168.** At hynny, nodwn y gellid ystyried rhoi twll yn yr organau cenhedlu fel achos o anffurfio organau cenhedlu benywod o dan ddiffiniad Sefydliad Iechyd y Byd. Credwn y byddai cyfyngu'r oedran i 18 yn cyd-fynd yn well â gofynion statudol eraill fel y ddyletswydd orfodol ar weithwyr iechyd, gweithwyr gofal a gweithwyr addysg proffesiynol i roi gwybod am achosion pan fydd gan ferched o dan 18 oed dwll neu datw ar yr organau cenhedlu neu pan fyddant wedi cael llawdriniaeth ar yr organau cenhedlu. Rydym yn cydnabod bod y Memorandwm Esboniadol yn gwahaniaethu rhwng anffurfio organau cenhedlu menywod a'r darpariaethau sydd yn y Bil ynghylch rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff. Dywed y Memorandwm Esboniadol mai dim ond pan roddir twll at ddibenion gosod gemwaith neu addurn tebyg y bydd y darpariaethau yn y Bil yn berthnasol. Serch hynny, credwn yn gryf, er mwyn osgoi amheuaeth, ac i roi neges glir a chyson, y dylid gosod cyfyngiad oedran o 18.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymhell bod Adran 92 o'r Bil yn cael ei diwygio er mwyn gwahardd rhoi twll, neu wneud trefniadau i roi twll, mewn rhan bersonol o gorff person sydd o dan 18 oed.

## 10. Rhan 5: Aseidiadau o'r Effaith ar Iechyd

**169.** Mae Rhan 5 o'r Bil yn cyflwyno darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal Aseidiadau o'r Effaith ar Iechyd (HIAs) mewn amgylchiadau penodol. Mae'r aseidiadau hyn yn fodd o roi ystyriaeth i iechyd wrth wneud penderfyniadau neu yn ystod prosesau cynllunio.

**170.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod y "diffiniad a dderbynnir yn eang yn disgrifio HIA fel a ganlyn: "a widely accepted definition for HIAs describes 'a combination of procedures, methods and tools by which a policy, programme or project may be judged as to its potential effects on the health of a population, and the distribution of those effects within the population'".<sup>140</sup>

**171.** Mae'n nodi bod Sefydliad Iechyd y Byd eisoes wedi cydnabod bod yr aseidiadau yn arwain at nifer o fanteision, gan gynnwys gwella iechyd a lleihau anghydraddoldeb.<sup>141</sup>

**172.** Mewn rhai achosion, mae'r aseidiadau eisoes yn cael eu cynnal yng Nghymru, ac mae Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhoi cymorth ar gyfer gwneud hyn. Nid yw cynnal aseidiadau'n ofynnol drwy Gymru yn ôl y gyfraith ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae gofyn eu cynnal pan wneir cais am gloddio glo brig, ac maent yn rhan o rai o ganllawiau Llywodraeth Cymru.

**173.** Mae WHIASU yn hyrwyddo ac yn annog y defnydd o aseidiadau o'r effaith ar iechyd yng Nghymru. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan nad yw union nifer yr aseidiadau a wneir yng Nghymru yn hysbys, ond mae tua 140 wedi'u cynnal gyda chymorth WHIASU.<sup>142</sup>

**174.** Er mwyn "cryfhau statws HIAs ymhellach" yng Nghymru, mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau a fydd "yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â'r amgylchiadau pan fydd rhaid i sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru gynnal HIAs".<sup>143</sup> Nod Llywodraeth Cymru yw y dylai'r aseidiadau fod wedi'u cyfyngu i "bolisiâu, cynlluniau a rhaglenni y bydd arwyddocâd cenedlaethol neu sylweddol i'w canlyniadau neu a fydd yn cael effaith sylweddol ar iechyd y cyhoedd ar lefel leol".<sup>144</sup>

**175.** Yn ogystal â'r aseidiadau o'r effaith ar iechyd, mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn dweud bod gan Lywodraeth Cymru ddulliau deddfwriaethol eraill o roi sylw i iechyd wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.<sup>145</sup> Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd yn ei flaen i ddweud mai nod y Bil yw cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Gan hynny, bydd pob corff cyhoeddus y mae'r Ddeddf honno'n berthnasol iddo yn gorfod cydymffurfio â'r gofynion i gynnal aseidiadau o'r effaith ar iechyd hefyd.

### Aseidiadau o'r Effaith ar Iechyd

**176.** Yn ei thystiolaeth cydnabu'r Gweinidog fod gwaith Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Pedwerydd Cynulliad a'r ymgyrchu cyhoeddus gan sefydliadau fel BMA Cymru Wales wedi arwain at greu'r rhan hon o'r Bil.<sup>146</sup>

<sup>140</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 164

<sup>141</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 165

<sup>142</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 171

<sup>143</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraffau 175 i 176

<sup>144</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 176

<sup>145</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 173

<sup>146</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 227

**177.** Bwriad y Gweinidog yw y bydd y Bil yn fodd o ledaenu manteision asesiadau o'r effaith ar iechyd yn ehangach yng Nghymru.<sup>147</sup>

**178.** Roedd y dystiolaeth gan randdeiliaid yn gryf o blaid cynnwys y darpariaethau ynghylch asesiadau o'r effaith ar iechyd yn y Bil.<sup>148</sup>

**179.** Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor dywedodd BMA Cymru Wales:

---

“...it’s fairly well known that we’re extremely supportive of health impact assessments being within the Bill as a central lever, and we think that, potentially, is the element that could make Wales quite a leader in the field”.

(...) by placing [HIAs] on a statutory footing, it commits Wales to looking at the big picture: what is potentially going to negatively impact on health, and can that be mitigated before the negative effects happen.”<sup>149</sup>

---

**180.** Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthym y gallai asesiadau o'r effaith ar iechyd gyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru<sup>150</sup>, barn yr oedd Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd y Byrddau Iechyd Lleol yn cyd-weld â hi.<sup>151</sup> Awgrymodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y byddai'r Bil yn galluogi dull cyson a chlr lle gall asesiadau o'r effaith ar iechyd ychwanegu gwerth<sup>152</sup>, a dywedodd:

---

“...we see our role as very much supporting other organisations in trying to undertake high-quality health impact assessments.”<sup>153</sup>

---

**181.** Dywedodd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd fod y darpariaethau sy'n ymwneud ag asesiadau o'r effaith ar iechyd yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac y bydd hynny'n fodd o amddiffyn pobl sy'n agored i niwed ac yn gwneud cyfraniad pwysig at ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.<sup>154</sup>

**182.** Awgrymodd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol y gallai'r asesiadau fod yn fodd o roi sylw i faterion eraill sy'n effeithio ar boblogaeth Cymru ond nad ydynt yn ymddangos yn y Bil, er bod y Coleg wedi dymuno'u gweld yn y Bil.<sup>155</sup>

**183.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod yr adrannau yn y Bil ynghylch yr asesiadau yn golygu y bydd iechyd yn ganolog i bob polisi, ac y dylent fod o fudd i gymunedau o amddifadedd yng Nghymru lle mae anghydraddoldebau iechyd ar eu hamlycaf. <sup>156</sup> Yn ei thystiolaeth ychwanegodd y Gweinidog:

---

“...health impact assessments can provide high-quality evidence to policy makers in terms of helping policy makers take good decisions (...)”<sup>157</sup>

---

---

<sup>147</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 181

<sup>148</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig PHB 01, PHB 03-08, PHB 10, PHB 16, PHB 20, PHB 22, PHB 23, PHB 26-28, PHB 31, PHB 33, PHB 36-37, PHB 39

<sup>149</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraffau 152 a 239

<sup>150</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2016, paragraff 29

<sup>151</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2016, paragraff 159

<sup>152</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2016, paragraffau 29 a 101

<sup>153</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2016, paragraff 101

<sup>154</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 05

<sup>155</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 238

<sup>156</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraffau 142 a 144

<sup>157</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 227

**184.** O ran y diffiniad o asesiadau o'r effaith ar iechyd, dywedodd y Gweinidog fod y cyfeiriad at iechyd corfforol a meddyliol yn golygu bod y naill a'r llall yn gyfartal, ac yn rhoi neges gref o ran pwysleisio eu bod yr un mor bwysig â'i gilydd.<sup>158</sup>

**185.** Er eu bod o blaid y darpariaethau, awgrymodd Coleg Brenhinol y Meddygon mai dim ond un rhan o wella iechyd y cyhoedd yw asesiadau o'r effaith ar iechyd, ac y bydd rhoi rhagor o bwyslais ar gydweithio rhwng gwahanol gyrrff yn hanfodol er mwyn i'r Bil lwyddo.<sup>159</sup>

**186.** Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wrthym:

“These assessments will help public bodies in maintaining and improving the health of their populations, but would provide a more consistent and complimentary approach if they were to also include well-being.”<sup>160</sup>

**187.** Aeth y Comisiynydd yn ei blaen:

“Our narrative has changed radically in Wales in a really short period of time. (...) Health and well-being go intrinsically hand in hand. (...) We have the national indicators for Wales. If we had a health and well-being impact assessment we could, in every decision we make – the little and the big – be assessing our progress towards those.”<sup>161</sup>

**188.** Wrth roi sylwadau am awgrym Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, dywedodd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd wrthym fod y cysyniad o 'iechyd' yn cynnwys iechyd corfforol, iechyd meddyliol a llesiant. Gan hynny, byddai'r holl bethau sy'n effeithio ar iechyd yn cael eu cynnwys mewn asesiad o'r effaith ar iechyd.<sup>162</sup> Meddai Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd hefyd:

“...if you wanted to call them 'health and well-being [impact] assessments you could do that without actually having to change anything. (...) There's no reason not to do it, but it wouldn't fundamentally change the process.

If it helps people who may not be acquainted with the full determinants of health, to realise that what they've got is a document that goes beyond health and also deals with well-being, then all well and good, there is some benefit to doing it.”<sup>163</sup>

**189.** Cyfeiriodd nifer o dystion at yr angen i asesiadau o'r effaith ar iechyd gael eu trin fel mwy na dim ond cam i dicio blwch. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

“...it's important that (...) health impact assessments (...) aren't just a tick-box exercise, that they will identify the issues to be addressed and, most importantly, how we then mitigate or address some of those effects that could be found.”<sup>164</sup>

<sup>158</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraffau 118 i 119

<sup>159</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 16

<sup>160</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 33

<sup>161</sup> Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 77

<sup>162</sup> Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 241

<sup>163</sup> Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraffau 241 a 247

<sup>164</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 97

**190.** Gan gydnabod bod awdurdodau lleol eisoes yn cynnal nifer o asesiadau gwahanol o effaith pethau, roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn derbyn bod angen cynnal trafodaethau i weld sut y gellid cyfuno'r asesiadau hynny er mwyn gweithio mewn ffordd gyfannol.<sup>165</sup>

**191.** Er ei bod o blaid cynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd ac o blaid eu cynnwys yn y Bil, ac er iddi ddweud y byddai'r asesiadau yn gam cadarnhaol tuag at gyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, dywedodd y Company Chemists' Association y byddai'n gwerthfawrogi eglurder ynghylch a fyddai'r asesiadau yn effeithio ar wasanaethau y mae fferyllfeydd cymunedol yn eu darparu. Cwestiynodd hefyd a allai byrddau iechyd lleol ddefnyddio'r asesiadau wrth ystyried comisiynu neu ddadgomisiynu gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr fferyllfeydd cymunedol.<sup>166</sup>

**192.** Wrth roi sylwadau ar atal gordewdra, awgrymodd Diabetes UK Cymru y dylai'r effaith ar bwysau person ddod o dan y categori iechyd corfforol, ac y dylid ystyried hynny felly wrth gynnal pob asesiad o'r effaith ar iechyd.<sup>167</sup> Yn ôl y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant:

---

“...could help to prevent children and young people from becoming unwell if (...) local authority planning decisions included a public health impact assessment to consider the health impact of planning decisions on physical activity and obesity”.<sup>168</sup>

---

**193.** Dywedodd un o swyddogion y Gweinidog wrthym y byddai canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch yr asesiadau yn hanfodol i lwyddiant y ddeddfwriaeth hon yn y dyfodol, ac y byddai'r canllawiau hynny'n rhoi sylw i'r pwyntiau a'r materion y mae'r Pwyllgor a rhanddeiliaid wedi'u codi.<sup>169</sup> Aeth y Gweinidog yn ei blaen i ddweud y byddai'n penderfynu ar gynnwys a chwmpas canllawiau a rheoliadau, ac ynghylch gwneud darpariaeth neu beidio i roi sylw i faterion fel llygredd aer, ar ôl ymgynghori ynghylch hynny.<sup>170</sup>

**194.** O ran goblygiadau ariannol y rhan hon o'r Bil a'r gwerth am arian posibl yn sgil rhoi sail statudol i asesiadau o'r effaith ar iechyd, dywedodd y Gweinidog bod deddfu yn ffordd gost-effeithiol o fwrw ymlaen â'r polisi hwn. Dywedodd hefyd y byddai hynny'n sicrhau'r manteision heb arwain at gostau ychwanegol sylweddol.<sup>171</sup>

## Hyfforddiant a capasiti

**195.** O ran hyfforddiant a capasiti, er bod hyfforddiant wedi'i roi ers nifer o flynyddoedd, dywedodd lechyd Cyhoeddus Cymru y byddai angen rhoi rhagor o hyfforddiant a chynyddu capasiti.<sup>172</sup> Rhoddodd Cyfarwyddwyr lechyd y Cyhoedd y Byrddau lechyd Lleol hefyd sylwadau am oblygiadau'r Bil o ran capasiti, sgiliau ac adnoddau, gan awgrymu bod cwestiynau y mae angen eu gofyn a'u hateb yn hyn o beth.<sup>173</sup> Dywedodd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru ei bod yn briodol mynegi pryderon

---

<sup>165</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 97

<sup>166</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 23

<sup>167</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 18

<sup>168</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 27

<sup>169</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 127

<sup>170</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 129

<sup>171</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 231

<sup>172</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2016, paragraff 103

<sup>173</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2016, paragraffau 159, a 225 i 227

am gapasiti, ac awgrymodd y gallai fod yn her cael digon o adnoddau i gynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd.<sup>174</sup>

**196.** Dywedodd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd wrthym fod gan Gymru 46 o Ymarferwyr Iechyd yr Amgylchedd a chanddynt Dystysgrif Cymhwysedd ar gyfer cynnal asesiadau cyflym, a chwe ymarferydd sy'n gymwys i asesu ansawdd asesiadau.<sup>175</sup>

## Ein barn ni

**197.** Rydym o blaid yr egwyddor yn Rhan 5 o'r Bil sy'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd mewn amgylchiadau penodol. Rydym yn cydnabod barn y Gweinidog ac yn cytuno â hi bod asesiadau yn fodd systematig o roi sylw i iechyd wrth wneud penderfyniadau ac yn ystod prosesau cynllunio.

**198.** Nodwn a chrosawn y ffaith y bydd y rheoliadau sy'n pennu'r amgylchiadau a sut y dylai gyrff cyhoeddus gynnal yr asesiadau yn cael eu datblygu drwy ymgynghori, a chytunwn â phenderfyniad y Gweinidog y dylai'r rheoliadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad o dan y weithdrefn gadarnhaol.

**199.** Nodwn dystiolaeth y Gweinidog ynghylch canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnal yr asesiadau, a chytunwn y bydd y canllawiau hynny'n hanfodol i lwyddiant y ddeddfwriaeth. At hynny, croesawn ymrwymiad y Gweinidog y bydd y canllawiau yn cynnwys materion yr ydym ni a rhanddeiliaid wedi'u codi.

**200.** Er mwyn sicrhau bod y Bil yn cyd-fynd â darnau eraill o ddeddfwriaeth, bydd yn rhaid i'r holl gyrff cyhoeddus a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd. Yn sgil hyn, a chan gydnabod y dystiolaeth gan randdeiliaid ynghylch yr angen am neges gyson, rydym am bwysleisio y dylai'r asesiadau o'r effaith ar iechyd ddehongli "Iechyd" yn y ffordd ehangaf bosibl. Rydym wedi ein hargyhoeddi gan gryfder y dystiolaeth a roddodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ynghylch yr angen i'r asesiadau o'r effaith ar iechyd gynnwys cyfeiriad at "lesiant".

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymhell ailenwi Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a Llesiant, a hynny er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd ac ymarferwyr y ddealltwriaeth ddiweddaraf sy'n gyson â darnau eraill o ddeddfwriaeth.

**201.** At hynny, er mwyn helpu ymarferwyr iechyd y cyhoedd a fydd yn cynnal yr asesiadau o'r effaith, rhaid i ganllawiau Llywodraeth Cymru adlewyrchu'r dehongliad ehangaf bosibl o iechyd a llesiant.

---

<sup>174</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 95

<sup>175</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 05, a Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 235

# 11. Rhan 6: Gwasanaethau fferyllol

## Asesiadau o anghenion fferyllol

**202.** Mae Rhan 6 o'r Bil yn cyflwyno newidiadau i'r modd y mae byrddau iechyd lleol yn penderfynu ar geisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG.

**203.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw sefydlu'r strwythur cyffredinol ar gyfer fferyllfeydd cymunedol, ac mai'r byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol.<sup>176</sup>

**204.** Mae gan Weinidogion Cymru "bwerau a dyletswyddau eang" i wneud rheoliadau, a gall hyn gynnwys nodi'r telerau gwasanaeth ar gyfer fferyllwyr y GIG a defnyddio'r prawf rheoli mynediad (sef y prawf "y mae'n rhaid ei fodloni cyn y caiff BIL ganiatáu cais ar gyfer cofnod ar eu rhestr fferyllol").<sup>177</sup>

**205.** Dywed y Memorandwm Esboniadol nad yw'r system reoleiddio bresennol, sydd wedi'i sefydlu ers dros 25 mlynedd, bellach yn adlewyrchu'n ddigonol y modd y mae gwaith fferyllfeydd yn newid yng Nghymru.<sup>178</sup> O dan y trefniadau presennol ar gyfer penderfynu ar geisiadau i gael eu cynnwys ar y rhestr fferyllol, dywed y Memorandwm mai dim ond y gwasanaethau fferyllol a ddiffinnir o dan Adran 80 o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 y bydd byrddau iechyd lleol yn eu hystyried, ac mae'r rheini ar y cyfan yn ymwneud â dosbarthu presgripsiynau yn unig. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn cydnabod bod "fferyllfeydd cymunedol hefyd yn darparu gwasanaethau ychwanegol yn gynyddol".<sup>179</sup>

**206.** Yn ei thystiolaeth, roedd y Gweinidog yn derbyn bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf i ehangu'r gwasanaethau a ddarperir gan fferyllfeydd, ond bod y Bil yn gydnabyddiaeth bod modd gwneud llawer iawn mwy.<sup>180</sup> O ran yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud, ychwanegodd y Gweinidog:

“...it's looking at the wider services that pharmacies can provide, particularly in response to the pharmaceutical needs assessment that local health boards will be able to undertake. So, it is a step change in terms of the status of community pharmacies within the provision of health services in Wales, and also an opportunity... to realise the huge potential of community pharmacies”.<sup>181</sup>

**207.** Mae'r Gweinidog yn credu y bydd y newidiadau a geir yn y Bil yn fodd o wella ansawdd a chysondeb gwasanaethau fferyllol y GIG.

**208.** Mae'r Bil yn ceisio newid y modd y bydd byrddau iechyd lleol yn gwneud penderfyniadau am wasanaethau fferyllol, ac yn ceisio gwella'r modd y caiff y gwasanaethau hynny eu cynllunio a'u darparu. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol baratoi a chyhoeddi asesiad o'r angen am wasanaethau fferyllol. Gelwir hyn yn asesiad o anghenion fferyllol (PNA). Mae'r Bil hefyd yn newid y modd y caiff geisiadau eu hystyried ar gyfer bod ar restr fferyllol, fel bod yn rhaid i fwrdd iechyd roi

<sup>176</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 191

<sup>177</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 193

<sup>178</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 202

<sup>179</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraffau 203 a 204

<sup>180</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 238

<sup>181</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 239



syllw i'w hasesiad diweddaraf o anghenion fferyllol a bod yn fodlon y byddai caniatáu'r cais yn bodoli anghenion y gwasanaeth yn yr ardal.<sup>182</sup>

**209.** Ynghyd â'r newidiadau i gyflwyno system fynediad sy'n seiliedig ar anghenion ar gyfer rhestrau fferyllol, bydd trefn ymadael yn cael ei sefydlu er mwyn cymryd camau graddol i ddelio â darparwyr nad ydynt yn bodloni rhwymedigaethau eu telerau gwasanaeth.<sup>183</sup>

**210.** Roedd y dystiolaeth a gawsom gan randdeiliaid o blaid bwriad y Bil i newid y modd y mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu cynllunio a'u darparu.<sup>184</sup>

**211.** Dywedodd y Company Chemists' Association ei bod o blaid newid yn sylfaenol y modd y mae byrddau iechyd lleol yn gwneud penderfyniadau am wasanaethau fferyllol.<sup>185</sup>

**212.** Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru ei fod yn falch bod y Bil yn cydnabod y cyfraniad pwysig y gall fferyllwyr ei wneud wrth wella iechyd y cyhoedd, a barnodd y gallai iechyd y cyhoedd elwa'n fawr o sicrhau bod gan fyrddau iechyd lleol fwy o lais wrth gynllunio gwasanaethau fferyllol yn eu hardaloedd.<sup>186</sup> Meddai hefyd:

“The pharmaceutical needs assessments need to be tightly integrated into the Health Board Integrated Medium Term Plan (IMTP) cycle, driving planning and delivery of services.

The Bill provides an opportunity to ensure that the public are aware of the services that they can receive and access locally to remain in good health.”<sup>187</sup>

**213.** Cadarnhaodd Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd y Byrddau Iechyd Lleol eu bod yn fodlon bod y Bil yn cyflwyno'r newidiadau angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gan gymunedau y ddarpariaeth fferyllol yr ydym i gyd am ei gweld.<sup>188</sup>

**214.** Yn ôl y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, byddai'r Bil yn rhoi ffyrdd defnyddiol i Lywodraeth Cymru sicrhau bod modd i fferyllfeydd ddarparu gwasanaethau sy'n addas ar gyfer anghenion pobl yr ardal ac yn gallu ymateb i'r anghenion hynny.<sup>189</sup>

**215.** Drwy edrych ar anghenion y boblogaeth, awgrymodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y byddai'r asesiadau o anghenion fferyllol yn elfen allweddol wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau Iechyd.<sup>190</sup> Roedd Fferylliaeth Gymunedol Cymru o'r un farn.<sup>191</sup>

**216.** Gan gydnabod bod perthynas bositif eisoes yn bodoli rhwng amddifadedd a nifer y fferyllfeydd yng Nghymru,<sup>192</sup> dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai gwella'r modd y caiff gwasanaethau fferyllol

<sup>182</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraffau 207 a 208

<sup>183</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 214

<sup>184</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 01, PHB 03-04, PHB 10-12, PHB 14-15, PHB 23, PHB 34, PHB 36-37

<sup>185</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 23

<sup>186</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 03

<sup>187</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 03

<sup>188</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2016, paragraffau 229 i 231

<sup>189</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 11

<sup>190</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2016, paragraff 30

<sup>191</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 12

<sup>192</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 185

eu cynllunio yn galluogi Llywodraeth Cymru i ymateb yn well i anghenion cymunedau sy'n wynebu amddifadedd sylweddol.<sup>193</sup>

**217.** Roedd gan Gomisiynydd y Gymraeg bryderon nad oedd Rhan 5 o'r Bil yn esbonio'r berthynas rhwng y darpariaethau newydd ar gyfer gwasanaethau fferyllol a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella gwasanaethau iechyd a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.<sup>194</sup>

**218.** Dywedodd y Gweinidog am hyn:

---

“...meeting the pharmaceutical needs of the population is (...) about all of the population, and meeting them through the Welsh language will be part of that.”<sup>195</sup>

---

**219.** O ran effaith bosibl y Bil ar y gweithlu fferyllol, awgrymodd y Gweinidog y byddai'r Bil yn arwain at fwy o gyfleoedd i'r gweithlu gan y byddai fferyllfeydd yn rhoi mwy o wasanaethau. Ychwanegodd y byddai'r Bil yn arwain at ragor o gyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd i fferyllwyr weithio yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus, gan rannu'r talentau, y sgiliau a'r wybodaeth orau sydd ganddynt.<sup>196</sup>

**220.** Mae'r Gweinidog hefyd wedi dweud y bydd y newidiadau y mae'r Bil yn eu cyflwyno yn rhoi mwy o sicrwydd i gontractwyr fferyllol, gan leihau'r risg i fusnesau a galluogi buddsoddi mewn gwasanaethau ehangach.<sup>197</sup>

### Y diffiniad o wasanaethau fferyllol

**221.** Awgrymodd y Company Chemists' Association y dylid ailddiffinio gwasanaethau fferyllol er mwyn adlewyrchu'r weledigaeth y mae'r asesiad o anghenion fferyllol yn ceisio'i chreu, sef gweledigaeth sy'n cael ei harwain gan y gwasanaethau eu hunain.<sup>198</sup> Roedd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol yn cyd-weld:

---

“A wider definition of pharmaceutical services should encompass the essential and advanced services of the pharmacy contract and potential developments for further public health services.”<sup>199</sup>

---

**222.** Cyfeiriodd Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint Cymru Wales at ddarparwyr gwasanaethau fferyllol nad ydynt wedi'u lleoli mewn ardaloedd daearyddol penodol, fel darpariaeth gwasanaethau ocsigen drwy Gymru, a gofynnodd am ystyried effaith y Bil ar hyn.<sup>200</sup>

### Cysondeb ac osgoi dyblygu gwaith

**223.** Dywedodd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol bod yn rhaid datblygu dull cyson ar gyfer pob bwrdd iechyd lleol, gan ddefnyddio templed cenedlaethol ar gyfer yr asesiadau o anghenion fferyllol, a hynny er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd a chynllunio gwasanaethau'n gadarn.<sup>201</sup> Roedd

---

<sup>193</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 144

<sup>194</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 41

<sup>195</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 134

<sup>196</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 243

<sup>197</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 217

<sup>198</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 23

<sup>199</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 34

<sup>200</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 39

<sup>201</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 34

Fferylliaeth Gymunedol Cymru am i'r Bil bennu safonau a chanllawiau cenedlaethol ar gyfer creu a cyhoeddi asesiadau o anghenion fferyllol. Dywedodd:

“If the regulations are not well developed there is a risk of significant variation in development and implementation of PNAs and, in extreme circumstances, the risk of legal challenge.”<sup>202</sup>

**224.** Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu templed safonol fel awgrym ar gyfer yr asesiadau o anghenion fferyllol, a hynny mewn canllawiau, er mwyn sicrhau dull mwy cyson wrth gynnal yr asesiadau drwy Gymru.<sup>203</sup>

**225.** Dywedodd Coleg Brenhinol Nyrsio Cymru wrthym y dylai'r asesiadau o anghenion fferyllol asesu anghenion llesiant ehangach y boblogaeth leol yn ogystal â'r anghenion fferyllol.<sup>204</sup> Fodd bynnag, awgrymodd Arolygiaeth Iechyd Cymru na ddylai'r asesiadau o anghenion fferyllol a'r asesiadau o anghenion iechyd ddyblygu gwaith arall, ac yn hytrach y dylent gyd-fynd ag asesiadau o anghenion y boblogaeth, sef asesiadau y mae'n rhaid i fyrddau iechyd eu cynnal o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<sup>205</sup>

**226.** Roedd gan y Company Chemists' Association farn debyg wrth ddweud y dylai'r asesiadau o anghenion fferyllol fod yn rhan o gyfres ehangach o asesiadau. Dywedodd ei bod yn bwysig cydnabod nad yw cleifion yn dilyn ffiniau daearyddol wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd. O'r herwydd, dylai asesiadau o anghenion fferyllol byrddau iechyd lleol sy'n ffinio â'i gilydd fod yn rhan o asesiad pob bwrdd iechyd lleol.<sup>206</sup>

**227.** Bwriad y Gweinidog yw y dylai'r asesiadau cyntaf o anghenion fferyllol gael eu llunio yn unol ag amserlen sydd i'w phennu mewn rheoliadau, a bydd yr asesiadau dilynol yn cyd-fynd ag asesiadau eraill o anghenion, gan gynnwys yr asesiadau o lesiant lleol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<sup>207</sup>

## Yr effaith ar bractisau meddygon teulu sy'n dosbarthu meddyginiaeth

**228.** Er ei bod o blaid y darpariaethau ar y cyfan ac yn awgrymu bod asesiadau o anghenion fferyllol yn syniad da a rhesymol, dywedodd BMA Cymru Wales hefyd<sup>208</sup> fod angen i'r asesiadau roi sylw i'r gwasanaethau a'r rôl sydd gan bractisau sy'n dosbarthu meddyginiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Meddai:

“In the English legislation and regulation, that was overlooked, and the result was that, (...) when an assessment was done of a rural area, it was decided to be underserved by pharmaceuticals. (...) [That] led to it being a priority to open a chemist. The trouble is that that undermined the rural general practice (...)”

<sup>202</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 12

<sup>203</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 241

<sup>204</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 14

<sup>205</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 15

<sup>206</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 23

<sup>207</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 211

<sup>208</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraffau 243 i 249, a thystiolaeth ysgrifenedig, PHB 08

And we've seen, in very rural areas of England, general practices closing as a result (...)"<sup>209</sup>

---

**229.** Wrth ymateb, awgrymodd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol na fyddai'r problemau posibl y gallai practisau sy'n dosbarthu meddyginiaeth eu hwynebu wedi'u cyfyngu i ardaloedd gwledig.<sup>210</sup> Ychwanegodd:

"...we do see an opportunity (...) for a more synergistic working of the GMS GP contract and the pharmacy contract, so that practices and pharmacies aren't competing in the way they are now (...)"<sup>211</sup>

---

**230.** Wrth ymateb i bryderon BMA Cymru Wales ynghylch practisau sy'n dosbarthu meddyginiaeth, dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod wedi ysgrifennu at y BMA i gadarnhau y bydd yr asesiadau o anghenion fferyllol yn adlewyrchu cyfraniad pob darparwr sy'n ateb anghenion iechyd lleol, a bod hynny'n amlwg yn cynnwys meddygon sy'n dosbarthu meddyginiaeth.<sup>212</sup>

### Ein barn ni

**231.** Rydym o blaid y darpariaethau yn y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Baratoi a chyhoeddi asesiadau o anghenion fferyllol yn eu hardaloedd. Nodwn ddatganiad y Gweinidog y bydd y newidiadau arfaethedig yn fodd o wella ansawdd a chysondeb gwasanaethau fferyllol y GIG yn raddol, ac o ganlyniad, edrychwn ymlaen at weld gwell gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu drwy Gymru yn sgil y Bil.

**232.** Fodd bynnag, nid ydym yn credu y bydd mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaethau fferyllol gwell yn sgil cyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol yn unig. Fel y casglodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd yn y Pedwerydd Cynulliad,<sup>213</sup> dylai Llywodraeth Cymru wneud pethau eraill er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth am ehangder y gwasanaethau sydd ar gael mewn fferyllfeydd.

**233.** Nodwn mai mewn rheoliadau y bydd y manylion ynghylch yr amserlen, yr amgylchiadau sy'n pennu pryd ddylai bwrdd iechyd lleol adolygu ac addasu ei asesiad o anghenion fferyllol, a'r modd y dylid cyhoeddi'r asesiadau. Er ein bod yn fodlon â'r cynigion hyn, croesawn ymrwymiad y Gweinidog i roi templed safonol mewn canllawiau ar gyfer yr asesiadau er mwyn sicrhau dull cyson o'u cynnal drwy Gymru.

**234.** Rydym yn cydnabod pryderon rhai tystion am yr effaith y gall y darpariaethau yn y rhan hon o'r Bil ei chael ar practisau meddygon teulu sy'n dosbarthu meddyginiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a lled wledig. Cytunwn â'r tystion hynny fod angen i'r asesiadau o anghenion fferyllol roi sylw i rôl practisau o'r fath a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ganddynt. Nodwn fod y Gweinidog wedi ysgrifennu at BMA Cymru Wales yn cadarnhau y bydd yr asesiadau yn adlewyrchu cyfraniad pob darparwr sy'n ateb anghenion iechyd lleol, gan gynnwys meddygon sy'n dosbarthu meddyginiaeth; croesawn y sicrwydd a roddodd y Gweinidog yn hyn o beth.

---

<sup>209</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 244

<sup>210</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 255, a thystiolaeth ysgrifenedig, PHB 06

<sup>211</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 250

<sup>212</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 132

<sup>213</sup> Adroddiad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Pedwerydd Cynulliad '[Y cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru](#)' (Mai 2012)

**235.** Nodwn fod y Bil yn diwygio'r prawf presennol ar gyfer derbyn fferyllwyr ar restr bwrdd iechyd lleol, fel y bydd y penderfyniadau am geisiadau i ymuno â'r rhestr honno wedi'u seilio ar ateb yr anghenion a nodir yn yr asesiad o anghenion fferyllol lleol. Rydym o blaid yr egwyddor hon. Nodwn a chrosawn hefyd y bydd modd i fwrdd iechyd lleol, lle nad yw'n derbyn ceisiadau, wahodd ceisiadau gan fferyllwyr i gael eu cynnwys ar y rhestr fferyllol. At hynny, credwn fod galluogi byrddau iechyd lleol i gael gwared ar fferyllwyr o'u rhestr ar ôl torri'r telerau a'r amodau gwasanaeth mewn ffordd ddifrifol neu gyson yn rhywbeth llesol i'w gynnwys yn y Bil.

## 12. Rhan 7: Darparu toiledau

**236.** Mae Rhan 7 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi strategaethau toiledau lleol. Bydd y strategaethau yn cynnwys asesiad o anghenion y gymuned o ran toiledau, ac yn dangos sut y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ateb yr angen hwnnw.

**237.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cydnabod bod darpariaeth toiledau cyhoeddus yn amrywio rhwng gwahanol awdurdodau lleol.<sup>214</sup> Mae'n dweud hefyd:

---

“Mae'r sefyllfa gyfreithiol bresennol mewn perthynas â chyfleusterau toiledau wedi ei nodi mewn amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.

Er bod y fframwaith deddfwriaethol presennol yn galluogi awdurdodau lleol i wneud darpariaeth ar gyfer toiledau, nid oes unrhyw ofynion deddfwriaethol iddynt wneud hynny.”<sup>215</sup>

---

**238.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod y system bresennol ar gyfer darparu a rhoi mynediad i doiledau cyhoeddus yn rhoi sawl her, gan gynnwys cynllunio gwael wrth wneud y defnydd gorau o doiledau sydd eisoes ar gael i'r cyhoedd mewn adeiladau cyhoeddus.<sup>216</sup>

### Strategaethau toiledau lleol

**239.** Dywedir mai nod y darpariaethau yn y Bil yw “gwella'r modd o gynllunio darpariaeth toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio trwy sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion ei gymuned o ran toiledau”.<sup>217</sup>

**240.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi na fydd y ddyletswydd i baratoi strategaeth toiledau lleol ynddo'i hun yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus, ond bydd gofyn i awdurdodau lleol “roi ystyriaeth strategol ar draws eu hardal i sut y gellir darparu'r cyfleusterau hyn a sicrhau eu bod yn hygyrch i'w poblogaeth leol”.<sup>218</sup>

**241.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y Bil yn ceisio gwella'r toiledau sydd ar gael i bawb.<sup>219</sup>

**242.** Roedd y dystiolaeth a gawsom gan randdeiliaid ar y cyfan o blaid darpariaethau'r Bil ynghylch darparu toiledau.<sup>220</sup>

**243.** Dywedodd Un Llais Cymru:

---

“...the principle of requiring a well thought through strategy, towards which members of local communities have been encouraged to contribute, is a sound and positive philosophy.”<sup>221</sup>

---

<sup>214</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 229

<sup>215</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 230 a 233

<sup>216</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 234

<sup>217</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 235

<sup>218</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 238

<sup>219</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 138

<sup>220</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 01, PHB 03, PHB 05, PHB 08, PHB 10, PHB 14, PHB 17, PHB 26, PHB 33, PHB 34, PHB 35, PHB 36, PHB 38

<sup>221</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 17

**244.** Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod darparu toiledau ar gyfer y cyhoedd yn fater o bwys ym maes iechyd y cyhoedd, ac y byddai paratoi strategaethau yn rhoi eglurder ynghylch y ddarpariaeth ar lefel leol.<sup>222</sup>

**245.** Dywedodd Crohn's and Colitis UK wrthym ei fod yn croesawu unrhyw ddarpariaeth sy'n arwain at ragor o doiledau cyhoeddus glân a hygyrch, a chroesawodd y ddyletswydd i asesu, cynllunio ac adolygu strategaeth doiledau er mwyn sicrhau bod toiledau addas ar gael.<sup>223</sup>

**246.** Nid oedd Cyngor Sir Penfro yn credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddatblygu strategaethau i ddarparu toiledau a rhoi mynediad i'r cyhoedd iddynt, a dywedodd ei fod yn ceisio darparu toiledau cyhoeddus ar sail patrymau twristiaeth, er lles iechyd y cyhoedd, ac ar sail eu cyfraniad at yr economi leol o fewn cyllidebau realistig.<sup>224</sup>

**247.** Dywedodd y Gweinidog y byddai'r Bil yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ac y bydd y canllawiau yn pennu y dylai awdurdodau lleol geisio barn defnyddwyr er mwyn sicrhau bod yr asesiad o'r angen yn adlewyrchu anghenion y boblogaeth leol ac ymwelwyr yn gywir.<sup>225</sup>

### Cyfleusterau hygyrch i bawb

**248.** Er mwyn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod anghenion gwahanol grwpiau mewn cymunedau'n cael eu hystyried yn y strategaethau toiledau lleol, mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro bod y Bil "yn darparu yn benodol bod y term 'toiledau' yn cynnwys cyfleusterau newid ar gyfer babanod a chyfleusterau newid ar gyfer pobl anabl".<sup>226</sup>

**249.** Dywedodd Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd y Byrddau Iechyd Lleol wrthym y gallai'r Bil wneud mwy o ran darparu toiledau i bobl anabl.<sup>227</sup> Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o'r un farn.<sup>228</sup>

**250.** Awgrymodd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol y dylai darparu toiledau i bobl anabl a chyfleusterau newid ar gyfer babanod fod yn amlwg yn strategaeth pob bwrdd iechyd lleol.<sup>229</sup>

**251.** Fodd bynnag, dywedodd Un Llais Cymru wrthym fod cynnwys cyfleusterau newid ar gyfer pobl anabl a babanod o fewn y diffiniad o "doiledau" yn ddigonol er mwyn sicrhau bod anghenion pob grŵp yn cael eu hystyried.<sup>230</sup>

**252.** Er ei bod yn cydnabod bod darparu toiledau a rhoi mynediad iddynt yn bryder gwirioneddol i bobl anabl, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru na ddylid edrych ar y Bil hwn ar ei ben ei hun, gan fod darnau eraill o ddeddfwriaeth yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010.<sup>231</sup>

**253.** Esboniodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

---

<sup>222</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 04

<sup>223</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 38

<sup>224</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 28

<sup>225</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 249

<sup>226</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 244

<sup>227</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2016, paragraff 237

<sup>228</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 33

<sup>229</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 35

<sup>230</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB17

<sup>231</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 112



---

“[One] of the things that we’ll need to make sure is (...) that there is very good engagement with disabled people across the piece, so that we can identify their needs, but also seek their views on options for actually meeting their needs (...)

[There] will be a need for us to think innovatively and outside the box in terms of how we meet some of those needs.”<sup>232</sup>

---

**254.** Roedd gan Cymorth Canser Macmillan bryderon na fyddai barn ac anghenion pobl y mae canser yn effeithio arnynt yn cael sylw yn ystod y broses o ddatblygu strategaethau toiledau lleol, ac roedd am weld rhagor o ystyriaeth i hyn.<sup>233</sup>

**255.** Tynnodd BMA Cymru Wales sylw at y cynnydd mewn digartrefedd, gan ddweud bod goblygiadau cymdeithasol ehangach hynny yn enghraifft o pam fod angen rhoi ystyriaeth o ddifrif i ddarpariaeth toiledau.<sup>234</sup> Yn yr un modd, dywedodd lechyd Cyhoeddus Cymru y dylai’r ymgynghori ynghylch datblygu strategaethau toiledau lleol gynnwys anghenion pobl ddigartref, yn ogystal â gweithwyr symudol ac ymwelwyr.<sup>235</sup>

**256.** Yn ei thystiolaeth dywedodd y Gweinidog:

---

“Public authorities are already requested by the public sector disability equality duty to consider how they can improve and contribute to a fairer society through their day-to-day activities, including provision of public toilets as well and, if passed, the Bill will extend that to include those strategies within that as well.”<sup>236</sup>

---

### **Ariannu’r strategaethau a’u rhoi ar waith**

**257.** Roedd gan Gonffederasiwn GIG Cymru bryderon am yr adnoddau sydd gan awdurdodau lleol – barn yr oedd lechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfarwyddwyr Diogelu’r Cyhoedd Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr lechyd y Cyhoedd yn ei rhannu.<sup>237</sup> Meddai:

---

“The writing of a strategy alone will not automatically improve provision because of the significant financial pressures already experienced by Local Authorities. The statutory duty to write a strategy will have little impact on actual provision, unless resources can be identified to put such a strategy in place.”<sup>238</sup>

---

**258.** Roedd gan Un Llais Cymru farn debyg, a chwestiynodd benderfyniad y Gweinidog i wneud darpariaeth sy’n gofyn am strategaethau lleol yn unig, gan awgrymu na fyddai’r strategaethau hynny yn rhoi digon o fomentwm er mwyn sicrhau’r gwelliannau y mae eu hangen.<sup>239</sup>

**259.** Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru nad oedd y Bil yn gwneud digon gan nad yw’n gorfodi awdurdodau lleol i sicrhau bod toiledau cyhoeddus ar gael i bobl.<sup>240</sup>

---

<sup>232</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraffau 113 a 126

<sup>233</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 26

<sup>234</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 264

<sup>235</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 04

<sup>236</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 138

<sup>237</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 04, PHB 07 a PHB 37

<sup>238</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 03

<sup>239</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 17

**260.** Aeth y Comisiynydd yn ei blaen i ddweud bod darparu toiledau cyhoeddus yn gwbl hanfodol i'r agenda atal. Awgrymodd hefyd fod effaith toriadau o bosibl yn achos o economi ffug i'r trethdalwyr, gan fod pobl yn talu pris beth bynnag, dim ond mewn llinell wahanol yn y gyllideb.<sup>241</sup>

**261.** Roedd gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd bryder y byddai awdurdodau lleol yn llunio strategaethau gwych ond na fyddai hynny'n cael unrhyw effaith ymarferol ar lawr gwlad.<sup>242</sup>

**262.** Er ei fod yn cydnabod y byddai cyhoeddi datganiadau am sut y mae'r strategaethau'n cael eu rhoi ar waith yn rhoi rhywfaint o gymhelliad i ateb yr anghenion a ganfuwyd wrth asesu, roedd Crohn's and Colitis UK hefyd yn pryderu na fyddai blaenoriaeth yn cael ei rhoi i anghenion lleol oni bai bod dyletswydd statudol i wneud hynny.<sup>243</sup> Meddai:

---

“This is disappointing and a missed opportunity to introduce new and bold solutions to tackle the huge toilet deficit within this groundbreaking piece of legislation (...)

With only around 950 public toilets left across Wales, it is important that the legislative solutions are strong enough to reflect the needs of the populace and the huge task at hand.”<sup>244</sup>

---

**263.** Ychwanegodd Age Cymru:

---

“...as there is no additional funding to underpin improvements in current provision, it is difficult to see how the development of a strategy will protect Wales' network of public toilets.”<sup>245</sup>

---

**264.** Argymhellodd Crohn's and Colitis UK y dylid diwygio'r Bil er mwyn cyflwyno modd o oruchwylio'n statudol sut y caiff strategaethau toiledau lleol eu rhoi ar waith, ac awgrymodd y byddai hynny'n dod yn lle rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau mynediad i doiledau.<sup>246</sup> Dywedodd:

---

“It is our contention that the Government has a role to play in ensuring compliance with the provisions of the Bill.”<sup>247</sup>

---

**265.** Wrth ymateb i gwestiynau ynghylch hyd a lled y darpariaethau yn y Bil, dywedodd y Gweinidog fod angen creu Bil sy'n realistig ynghylch yr hyn y gall awdurdodau lleol ei wneud a pheidio â gwneud rhywbeth sy'n rhy feichus neu'n amhosibl yn ariannol i'w gyflawni. <sup>248</sup>

**266.** Fodd bynnag, awgrymodd un o swyddogion y Gweinidog y byddai gan lywodraeth leol rôl bwysig ac y bydd y ddeddfwriaeth yn:

---

<sup>240</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 33

<sup>241</sup> Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraffau 92 a 95

<sup>242</sup> Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 253

<sup>243</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 38

<sup>244</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 38

<sup>245</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 21

<sup>246</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 38

<sup>247</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 38

<sup>248</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 258

---

“(…) rely on local authority scrutiny processes and the role of ward members within local authorities to represent their local populations to make sure provision is adequate for the needs of all the community.”<sup>249</sup>

---

### ‘Toiledau i’r cyhoedd eu defnyddio’

**267.** Disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn ystyried ‘ystod lawn o opsiynau’ ar gyfer sicrhau bod cyfleusterau ar gael i’r cyhoedd. Dywed y Memorandwm Esboniadol: “Enghraifft o’r broses hon yw pe na byddai toiled cyhoeddus ar gael mewn parc ond bod awdurdod lleol yn nodi bod angen un. Dylai’r awdurdod lleol ystyried gwahanol ffyrdd o sicrhau y caiff yr angen hwnnw ei ddiwallu. Gellid gwneud hyn trwy i’r awdurdod lleol ddarparu’r cyfleuster yn uniongyrchol, ond gellid diwallu’r angen llawn cystal mewn ffyrdd eraill, er enghraifft trwy i’r awdurdod lleol weithio gyda busnes preifat yn y parc neu’n agos ato i sicrhau bod eu cyfleusterau ar gael i’r cyhoedd.”<sup>250</sup>

**268.** Cyfeiriodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at yr angen i awdurdodau lleol edrych ar bethau’n strategol ac yn eang, gan ystyried mynediad i doiledau cyhoeddus yn ei gyfanrwydd. Gan gydnabod bod darpariaeth llywodraeth leol wedi prinhaus, mae’r Memorandwm Esboniadol yn dweud mai cost darparu pedwar o gyfleusterau toiled ychwanegol yn unig fyddai £107,000, heb y gost o gynnal y rheini. O ganlyniad, bydd angen cyfathrebu â sefydliadau eraill a all fod yn barod i ganiatáu i’r cyhoedd ddefnyddio eu toiledau.<sup>251</sup>

**269.** Dywedodd y Gweinidog:

---

“The statutory guidance will recommend local authorities consider whether there are opportunities to work with others: (...) working with other local authorities, working with public bodies, commercial and private entities, when assessing the need for, and the availability of, toilets in the local area. So, the toilets are deliberately referred to as ‘toilets for public use’ rather than ‘public toilets.’”<sup>252</sup>

---

**270.** Aeth y Gweinidog yn ei blaen i ddweud y byddai, drwy ganllawiau, yn edrych ar pa gyfrifoldeb y gellid ei osod ar awdurdodau lleol o ran agor y cyfleusterau ar eu hystadau eu hunain i’r cyhoedd eu defnyddio.<sup>253</sup> Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd yn cyd-weld yn hyn o beth.<sup>254</sup>

**271.** Yn ei dystiolaeth lafar, awgrymodd Crohn’s and Colitis UK y dylai fod dyletswydd ar sefydliadau trydydd parti sy’n cael cyllid cyhoeddus i gydweithio ag awdurdodau lleol, ac y byddai hynny’n dilysu galwadau’r awdurdodau lleol i raddau ac yn help i’r Bil lwyddo.<sup>255</sup>

### Cynlluniau grant

**272.** Cynigiodd nifer o randdeiliaid atebion nad ydynt yn dibynnu ar y gyfraith i fynd i’r afael â phrinder toiledau cyhoeddus. Yn ogystal â newidiadau deddfwriaethol, dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru y dylid hyrwyddo mwy ar gynlluniau eraill, fel y Cynllun Grant Toiledau Cymunedol, gan nad

---

<sup>249</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 153

<sup>250</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 238

<sup>251</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraffau 127, 140 a 142

<sup>252</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 251

<sup>253</sup> Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 164

<sup>254</sup> Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraffau 102 a 255

<sup>255</sup> Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 32

oedd y cynllun yn cael ei ddefnyddio ddigon a chan fod amrywiaeth fawr rhwng gwahanol awdurdodau lleol.<sup>256</sup> Fodd bynnag, dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru na allai'r cynllun ddisodli toiledau cyhoeddus yn ddigonol.<sup>257</sup>

**273.** Argymhellodd Un Llais Cymru y dylid ailgyflwyno'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r diffyg cyfleusterau cyhoeddus mewn sawl ardal yng Nghymru.<sup>258</sup> Er ei fod yn cydnabod cyfyngiadau'r Cynllun ac yn nodi bod angen ei ddefnyddio ar y cyd â chymau i sicrhau bod toiledau cyhoeddus ar gael, roedd Crohn's and Colitis UK hefyd o blaid defnyddio'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus ac awgrymodd y dylai cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y grant gael ei neilltuo'n benodol, fel yr arferai fod.<sup>259</sup> Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o'r un farn.<sup>260</sup>

**274.** Roedd y Gweinidog yn cydnabod bod nifer o bobl yn teimlo'n anghyfforddus yn mynd i gaffi, er enghraifft, i ddefnyddio'r toiledau heb brynu rhywbeth, ac awgrymodd fod angen newid diwylliant fel bod y cyhoedd yn deall bod gwneud hyn yn dderbyniol a bod y bobl sy'n cynnig y gwasanaeth yn croesawu hyn.<sup>261</sup>

**275.** Awgrymodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bod angen ymgyrch gyfathrebu i gyd-fynd â'r Bil fel bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r cyfleusterau sydd ar gael iddynt eu defnyddio, a hynny er mwyn goresgyn unrhyw deimladau anghyfforddus neu gywilydd neu unrhyw beth tebyg.<sup>262</sup>

## Codi ffioedd

**276.** Mae'r Bil yn galluogi awdurdodau lleol i godi ffioedd am ddefnyddio'r toiledau y maent yn eu darparu.

**277.** Dywedodd Crohn's and Colitis UK wrthym ei fod wedi gofyn barn rhanddeiliaid ynghylch codi ffioedd am ddefnyddio toiledau cyhoeddus cyn cyflwyno fersiwn flaenorol y Bil yn y Pedwerydd Cynulliad. Bryd hynny, dywedodd tua 50 y cant o bobl y byddent yn barod i dalu ffi bychan gan fod y toiledau hynny'n aml yn lanach ac yn llai tebygol o ddioddef o effeithiau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Serch hynny, dywedodd Crohn's and Colitis UK na fyddai byth o blaid codi ffioedd gan ei fod yn creu rhwystr.<sup>263</sup>

**278.** Tynnodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sylw'r Pwyllgor at yr ymatebion i ymgyrch Senedd Pobl Hŷn Cymru, 'P am Pobl', a ganfu fod 85 y cant o ymatebwyr yn barod i dalu ffi bychan i ddefnyddio toiled cyhoeddus.<sup>264</sup>

## Gwybodaeth gyhoeddus am doiledau

**279.** Rhaid i'r canllawiau y mae'n rhaid eu cyflwyno o dan y Bil wneud darpariaeth ynghylch gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd am y toiledau sydd ar gael i bobl eu defnyddio.

**280.** Awgrymodd Crohn's and Colitis UK fod angen gwneud hyn ar lefel genedlaethol:

<sup>256</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 03

<sup>257</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 33

<sup>258</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 17

<sup>259</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 38 a Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 37

<sup>260</sup> Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 93

<sup>261</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 251

<sup>262</sup> Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 143

<sup>263</sup> Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 50

<sup>264</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 33

---

“If there was one central website or app, a toilet app for Wales, which everyone could go to find their nearest toilet, then this would not only increase awareness of available toilets across Wales, but could also help reduce the costs to local authorities in adhering to their new statutory duty. Furthermore, with the fixed costs associated with 22 individual local IT solutions, creating one large central repository of information on toilets would be completed at a fraction of the cost and provide a better service to tourists and local people alike.”<sup>265</sup>

---

**281.** Roedd Sefydliad Siartredig lechyd yr Amgylchedd hefyd o blaid y syniad o greu ‘ap canfod toiledau’ ac aeth yn ei flaen i awgrymu bod angen logo hawdd ei adnabod y gallai siopau a busnesau ei arddangos er mwyn rhoi gwybod i’r cyhoedd yn syth bod toiled ar gael iddynt ei ddefnyddio. <sup>266</sup>

**282.** Dywedodd un o swyddogion y Gweinidog wrthym:

---

“We have, during the development of the Bill, looked at national data bases and toilet apps such as SatLav, the Great British Toilet Map. (...) It’s something we would encourage local authorities, through guidance, to engage with to make sure that those toilets that are being made available as a result of their strategies (...) are signposted to in as many accessible forms as possible.”<sup>267</sup>

---

## Ein barn ni

**283.** Nodwn fod y Bil yn ceisio gwella’r modd y caiff darpariaeth toiledau cyhoeddus ei chynllunio, a hynny drwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn asesu anghenion eu cymunedau o ran toiledau, a chefnogwn yr egwyddor o’i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi strategaethau toiledau lleol ar gyfer eu hardaloedd. Croesawn y gofynion a fydd yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn asesu anghenion eu cymunedau o ran toiledau, ac yn gorfod dangos sut y byddant yn ateb yr anghenion hynny.

**284.** Serch hynny, rydym yn cydnabod ac yn cytuno â barn nifer o randdeiliaid mai cyfyngedig fydd effaith y Bil o ran cynyddu darpariaeth gyffredinol toiledau cyhoeddus yng Nghymru heb ragor o fuddsoddiad ariannol.

**285.** Nodwn bryderon rhanddeiliaid ynghylch diffyg dyletswydd benodol ar awdurdodau lleol i roi’r strategaethau ar waith; credwn fod y pryderon hyn yn rhai dilys. Fodd bynnag, er ein bod yn gweld gwerth mewn rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i roi’r strategaethau ar waith, ac ymhellach, i ddarparu toiledau cyhoeddus, rydym yn cydnabod y pwysau ariannol a’r pwysau ar adnoddau sy’n wynebu llywodraeth leol ar hyn o bryd. Yn sgil hyn, derbyniwn resymeg y Gweinidog dros geisio sicrhau bod y darpariaethau yn realistig ac nad ydynt yn amhosibl i’w cyflawni’n ariannol.

**286.** Nodwn fod y Bil yn gofyn am roi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch sut y caiff y strategaethau toiledau lleol eu paratoi, eu hadolygu a’u cyhoeddi, a rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i’r canllawiau hyn. Credwn y bydd y canllawiau hyn yn bwysig er mwyn sicrhau cysondeb drwy Gymru, ac anogwn y Gweinidog i sicrhau bod y canllawiau yn rhoi digon o arweiniad i awdurdodau lleol ac hefyd i bennu disgwyliadau Llywodraeth Cymru.

---

<sup>265</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 38

<sup>266</sup> Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 271

<sup>267</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2016, paragraff 262

**287.** Cefnogwn y darpariaethau yn y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â chyrff perthnasol ynghylch y drafft o'u strategaethau toiledau lleol. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth a gafwyd gan randdeiliaid ynghylch pwysigrwydd sicrhau bod cyfleusterau toiledau cyhoeddus yn ateb anghenion unigolion y mae angen cyfleusterau newid, gofod ychwanegol, ac/neu gymorth addasiadau penodol arnynt. Rydym yn fodlon y bydd y gofyniad i awdurdodau lleol ymgynghori ynghylch eu strategaethau drafft yn sicrhau bod modd canfod anghenion pob rhan o'r gymuned.

**288.** Nodwn fod y Gweinidog yn disgwyl i awdurdodau lleol ystyried ystod lawn o opsiynau ar gyfer sicrhau bod cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd. Croesawn ymrwymiad y Gweinidog i edrych ar sut y gellid rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i agor cyfleusterau toiledau ar eu hystadau eu hunain i'r cyhoedd eu defnyddio.

**Argymhelliad 16.** Argymhellwn fod y Gweinidog yn esbonio'n glir yn y canllawiau statudol y disgwyliad y bydd toiledau mewn adeiladau cyhoeddus mawr ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio pryd bynnag y bydd hynny'n ymarferol ac yn bosibl.

**289.** Nodwn dystiolaeth rhanddeiliaid ynghylch cynlluniau fel y Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus. Credwn y dylai'r Gweinidog adolygu sut y mae cynlluniau o'r fath yn gweithio, gan gynnwys eu dulliau o ariannu. Dylai'r Gweinidog hefyd ystyried ffyrdd eraill nad ydynt yn dibynnu ar y gyfraith, fel ymgyrch gyfathrebu genedlaethol, i hyrwyddo'r defnydd o doiledau mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai cyhoeddus.

**290.** Yn ein barn ni, bydd rhoi gwybodaeth ddigonol, briodol a hygyrch i'r cyhoedd am leoliad toiledau a'r math o doiledau sydd ar gael i'w defnyddio mewn ardal benodol yn allweddol i lwyddiant y rhan hon o'r Bil.

**291.** Er ein bod yn cydnabod mai awdurdodau lleol ddylai fod yn gyfrifol am lunio'r strategaethau, credwn fod gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig wrth hwyluso a chydlynu'r wybodaeth er mwyn sicrhau cysondeb yn genedlaethol. Yn sgil hyn, cefnogwn awgrym nifer o randdeiliaid y dylid datblygu map cenedlaethol yn dangos lleoliad toiledau drwy Gymru. At hynny, rydym wedi ein hargyhoeddi gan y dystiolaeth a gawsom am fanteision creu Ap<sup>268</sup> a fyddai hefyd yn dangos ble i ddod o hyd i doiledau lleol.

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymhell bod y Gweinidog, drwy weithio â phartneriaid priodol, yn datblygu map cenedlaethol, gan ddefnyddio'r wybodaeth a roddir yn strategaethau toiledau lleol awdurdodau lleol, a hynny er mwyn helpu'r cyhoedd i ddod o hyd i doiledau sydd ar gael iddynt eu defnyddio drwy Gymru.

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymhell bod y Gweinidog, drwy weithio â phartneriaid priodol, yn ystyried yn fanwl y posibilrwydd o ddatblygu Ap a fyddai'n helpu'r cyhoedd i ddod o hyd i doiledau sydd ar gael iddynt eu defnyddio drwy Gymru.

**292.** At hynny, rydym yn cefnogi ac o blaid awgrym Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd y dylai fod logo hawdd ei adnabod y gall adeiladau cyhoeddus, siopau a busnesau ei arddangos er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd yn syth bod toiled ar gael iddynt ei ddefnyddio.

---

<sup>268</sup> Rhaglen gyfrifiadurol neu feddalwedd sydd wedi'i chynllunio at ddiben penodol. Mae modd lawrlwytho Ap i ffôn symudol neu ddyfais symudol arall.

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn comisiynu gwaith i ddatblygu logo y gellir ei adnabod yn hawdd i'w arddangos yn y mannau lle mae toiledau ar gael i'r cyhoedd drwy Gymru.

**293.** Nodwn fod y Bil yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi awdurdodau lleol i godi ffioedd am ddefnyddio'r toiledau y maent yn eu darparu. Rydym yn ymwybodol o'r cyfyngiadau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol ac rydym yn cydnabod y gall y cyfyngiadau hyn arwain awdurdodau lleol i ystyried codi ffioedd am ddefnyddio rhai o'u toiledau. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth a gafwyd ar y mater hwn. Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu bod angen iddo ddechrau codi ffioedd am ddefnyddio'i doiledau, rydym yn credu y dylai'r ffi fod mor isel â phosibl ac y dylid ymgynghori â'r gymuned cyn cyflwyno cynllun i godi ffioedd.



## 13. Rhan 8: Amrywiol a chyffredinol

### Derbyniadau cosb benodedig ar gyfer troseddau sgorio hylendid bwyd

**294.** Mae Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd gael sgôr am eu safonau hylendid bwyd, ac i arddangos y sgôr hwn mewn man y gall cwsmeriaid ei weld yn rhwydd, fel y fynedfa i'r busnes. Mae Deddf 2013 yn sicrhau bod gan gwsmeriaid wybodaeth sy'n hawdd ei deall am safonau hylendid busnes bwyd cyn prynu bwyd, ac mae hyn wedi gwella safonau hylendid busnesau bwyd drwy Gymru.

**295.** 'Awdurdodau bwyd' (awdurdodau lleol yn bennaf) sy'n gyfrifol am orfodi'r cynllun sgorio hylendid bwyd yng Nghymru. Mae Deddf 2013 yn caniatáu i awdurdodau bwyd roi hysbysiadau cosb benodedig i fusnesau bwyd am beidio â chydymffurfio â'r cynllun.

**296.** Mae adran 22(1) o Ddeddf 2013 ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i ddychwelyd y derbyniadau a geir o'r hysbysiadau am droseddau o dan y Ddeddf i Gronfa Gyfunol Cymru. O'r Gronfa hon y caiff gwariant Llywodraeth Cymru ei ddyrannu.

**297.** Mae Adran 116 o'r Bil yn gwneud mân newid i'r modd y gweinyddir derbyniadau o'r hysbysiadau cosb benodedig o dan y Ddeddf, er mwyn newid y trefniadau i ddychwelyd y derbyniadau am droseddau a'r modd y caiff y derbyniadau hynny eu hail-ddefnyddio. Mae hyn yn sgil galwadau gan awdurdodau bwyd i gael cadw'r derbyniadau er mwyn talu am gamau gorfodi o dan y cynllun.

**298.** Ar y cyfan, roedd pobl o blaid y ddarpariaeth hon. Dywedodd y rheini a roddodd sylwadau am yr Adran hon y byddai'n helpu awdurdodau lleol i adennill y costau o fynd i'r afael ag achosion o beidio â chydymffurfio, gan helpu i sicrhau bod y cynllun yn parhau'n llwyddiant.<sup>269</sup>

### Ein barn ni

**299.** Rydym yn fodlon â'r darpariaethau yn yr Adran hon. Nodwn farn ymatebwyr y byddai'n helpu awdurdodau lleol i adennill y costau o fynd i'r afael ag achosion o beidio â chydymffurfio, gan helpu i sicrhau bod y cynllun sgorio hylendid bwyd yn parhau'n llwyddiant.

---

<sup>269</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, PHB 07